Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk
Food Standards Agency

# Adroddiad ar y Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

Cyngor Dinas Casnewydd

13 – 17 Ionawr 2014

# Rhagair

Mae archwiliadau o wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid awdurdodau lleol yn rhan o drefniadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd i wella diogelwch a hyder defnyddwyr o ran bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae'r trefniadau hyn yn cydnabod mai cyfrifoldeb awdurdodau lleol yn bennaf yw gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid y Deyrnas Unedig sy'n ymwneud â diogelwch bwyd, hylendid, cyfansoddiad, labelu, bwyd a fewnforiwyd a bwyd anifeiliaid. Mae'r swyddogaethau rheoleiddio hyn sydd gan awdurdodau lleol yn cael eu cyflawni'n bennaf drwy eu Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach.

Mae'r adroddiad archwilio atodedig yn edrych ar Wasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yr awdurdod lleol. Mae'r asesiad yn cynnwys ystyriaeth o'r systemau a'r gweithdrefnau sydd wedi'u sefydlu ar gyfer ymyriadau mewn busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid, samplu bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolaeth fewnol, rheoli ac ymchwilio i achosion a chlefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd, cyngor i fusnesau, gorfodi, a hybu diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid. Dylid cydnabod y gallai fod cryn amrywiaeth yn y ffordd a'r modd y mae awdurdodau'n darparu eu gwasanaethau gorfodi bwyd, gan adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol.

Mae archwiliadau'r Asiantaeth yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau lleol yn erbyn y Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid "Y Safon", a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth fel rhan o'r Cytundeb Fframwaith ar Reolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd gan Awdurdodau Lleol (diwygiwyd ym mis Ebrill 2010), ac mae ar gael ar wefan yr Asiantaeth drwy:
www.food.gov.uk/enforcement/enforcework/frameagree

Prif nod y cynllun archwilio yw cynnal a gwella diogelwch a hyder y cyhoedd drwy sicrhau bod awdurdodau'n darparu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid effeithiol. Mae'r cynllun hefyd yn rhoi cyfle i amlygu a lledaenu arfer da, ac mae'n darparu gwybodaeth i lywio polisi'r Asiantaeth ar ddiogelwch bwyd, safonau a bwyd anifeiliaid, ac mae ar gael drwy:
www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring

Mae'r adroddiad yn cynnwys rhywfaint o ddata ystadegol, er enghraifft am nifer yr arolygiadau a gynhaliwyd o safleoedd bwyd. Mae gwefan yr Asiantaeth yn cynnwys data am weithgarwch gorfodi ar gyfer pob awdurdod lleol yn y Deyrnas Unedig, ac mae ar gael drwy: www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys cynllun gweithredu, a baratowyd gan yr awdurdod, i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r archwiliad.

I'ch helpu, mae rhestr o dermau technegol a ddefnyddir yn yr adroddiad archwilio hwn ar gael yn Atodiad C.

| | **CYNNWYS** | **Tudalen** |
|---|---|---|
| 1 | **Cyflwyniad** | **4** |
| | Y Rheswm dros yr Archwiliad | **4** |
| | Cwmpas yr Archwiliad | **4** |
| | Cefndir | **5** |
| 2 | **Crynodeb Gweithredol** | **9** |
| | **Canfyddiadau'r Archwiliad** | **13** |
| 3 | Trefniadaeth a Rheolaeth | **13** |
| 4 | Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau Cofnodedig | **18** |
| 5 | Swyddogion Awdurdodedig | **19** |
| 6 | Cyfleusterau ac Offer | **22** |
| 7 | Ymyriadau ac Arolygiadau Sefydliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid | **24** |
| 8 | Cwynion am Fwyd, Bwyd Anifeiliaid a Sefydliadau Bwyd | **34** |
| 9 | Cynllun y Prif Awdurdod ac Egwyddor yr Awdurdod Cartref | **36** |
| 10 | Cyngor i Fusnesau | **37** |
| 11 | Cronfa Ddata Sefydliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid | **38** |
| 12 | Arolygu a Samplu Bwyd a Bwyd Anifeiliaid | **40** |
| 13 | Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Gysylltiedig â Bwyd | **42** |
| 14 | Digwyddiadau Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid | **44** |
| 15 | Gorfodi | **45** |
| 16 | Cofnodion ac Ymyriadau/Adroddiadau Arolygu | **49** |
| 17 | Cwynion am y Gwasanaeth | **52** |
| 18 | Cyswllt â Sefydliadau Eraill | **53** |
| 19 | Monitro Mewnol | **54** |
| 20 | Adolygiad gan Drydydd Parti neu Gymheiriaid | **57** |
| 21 | Hybu Safonau a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid | **58** |
| | **Atodiadau** | |
| A | Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyngor Dinas Casnewydd | |
| B | Dull/Methodoleg yr Archwiliad | |
| C | Rhestr Termau | |

## 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi canlyniadau archwiliad o hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yng Nghyngor Dinas Casnewydd o dan benawdau Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae ar gael i'r cyhoedd ei weld ar wefan yr Asiantaeth drwy: ***ww.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring/auditreports***

### *Y Rheswm dros yr Archwiliad*

1.2 Rhoddwyd y grym i'r Asiantaeth Safonau Bwyd osod safonau, monitro ac archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid awdurdodau lleol gan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 a Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009. Cynhaliwyd yr archwiliad o'r gwasanaeth bwyd a bwyd anifeiliaid yng Nghyngor Dinas Casnewydd o dan adran 12(4) y Ddeddf a Rheoliad 7 y Rheoliadau.

1.3 Mae Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 ar reolaethau swyddogol a gyflawnir i sicrhau bod cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid wedi'i dilysu, yn cynnwys gofyniad i awdurdodau cymwys gynnal archwiliadau mewnol neu i drefnu bod archwiliadau allanol yn cael eu cynnal. Diben yr archwiliadau hyn yw dilysu pa un a yw rheolaethau swyddogol sy'n ymwneud â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael eu gweithredu'n effeithiol. I gyflawni'r gofyniad hwn, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd, sef yr awdurdod cymwys canolog ar gyfer cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn y Deyrnas Unedig, wedi sefydlu trefniadau archwilio allanol. Wrth ddatblygu'r rhain, mae'r Asiantaeth wedi ystyried arweiniad y Comisiwn Ewropeaidd ar sut y dylai archwiliadau o'r fath gael eu cynnal.[1]

1.4 Cynhaliwyd archwiliad o'r awdurdod fel rhan o raglen tair blynedd (2013 – 2016) o archwiliadau llawn o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

### *Cwmpas yr Archwiliad*

1.5 Roedd yr archwiliad yn ymdrin â threfniadau Casnewydd ar gyfer darparu gwasanaethau gorfodi cyfraith hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. Cynhaliwyd yr elfen 'ar y safle' o'r archwiliad yn swyddfeydd yr awdurdod yng Nghasnewydd rhwng 13 a 17 Ionawr 2014, ac roedd yn cynnwys ymweliadau dilysu â busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid i asesu effeithiolrwydd y rheolaethau swyddogol a weithredir gan yr awdurdod ac, yn fwy penodol, y gwiriadau a gynhelir gan swyddogion yr awdurdod, i ddilysu cydymffurfiaeth gweithredwr busnes bwyd a bwyd anifeiliaid â gofynion deddfwriaethol.

[1] Penderfyniad y Comisiwn ar 29 Medi 2006 sy'n amlinellu'r canllawiau sy'n gosod meini prawf ar gyfer cynnal archwiliadau o dan Reoliad (CE) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cygnor o reolaethau swyddogol i ddilysu cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, a rheolau iechyd anifeiliaid a lles anifeiliaid (2006/677/EC).

1.6 Roedd yr archwiliad hefyd yn rhoi cyfle i drafod gyda swyddogion sy'n ymwneud â gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, gyda'r nod o archwilio materion allweddol a chael safbwyntiau i lywio polisi'r Asiantaeth.

1.7 Roedd yr archwiliad yn asesu cydymffurfiaeth yr awdurdod â'r "Safon". Mabwysiadwyd y Safon gan Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar 21 Medi 2000 (ac fe'i diwygiwyd am y pumed tro ym mis Ebrill 2010), ac mae'n ffurfio rhan o Gytundeb Fframwaith yr Asiantaeth ag awdurdodau lleol. Mae'r Cytundeb Fframwaith ar gael ar wefan yr Asiantaeth drwy: www.food.gov.uk/enforcement/enforcework/frameagree

***Cefndir***

1.8 Awdurdod unedol yn ne-ddwyrain Cymru yw Casnewydd, ychydig filltiroedd o ail bont Hafren ar hyd coridor yr M4. Mae Casnewydd, sef dinas fwyaf newydd Cymru, yn ffurfio porth rhwng Cymru a Lloegr. Mae'n cynnwys ardal o ychydig dros 73.5 o filltiroedd sgwâr, ac mae wedi'i ffinio ag awdurdodau unedol Caerdydd, Sir Fynwy, Torfaen a Chaerffili.

1.9 Mae gan Gasnewydd boblogaeth o 145,700 a'r nifer ail fwyaf o bobl o gefndir nad yw'n wyn o'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru, ar ôl Caerdydd. Mae'r boblogaeth wedi cynyddu 6% ers 2001, o ganlyniad i gynnydd mewn disgwyliad oes a mewnfudo o dramor.

1.10 Mae Casnewydd wedi bod yn borthladd ers y canoloesoedd a, hyd at esgyniad Caerdydd o'r 1850au ymlaen, Casnewydd oedd y porthladd allforio glo mwyaf yng Nghymru. Dirywiodd bwysigrwydd y dociau yn ystod yr 20fed ganrif, ond mae Casnewydd wedi parhau i fod yn ganolfan bwysig ar gyfer gweithgynhyrchu a pheirianneg.

1.11 Ar hyn o bryd, porthladd llwythi cyffredinol yw Porthladd Casnewydd sy'n mewnforio tua 1.5 miliwn o dunelli o lwythi y flwyddyn. Mae'r prif fewnforion yn cynnwys glo, dur, pren a chynhyrchion pren. Rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2011, mewnforiwyd tua 25,000 o dunelli o fwyd anifeiliaid drwy'r porthladd, gan gynnwys soia, cnewyll palmwydd, blodau haul, gwenith organig, pys sych a phelenni cêc olewydd. Roedd y gwledydd tarddiad yn cynnwys Unol Daleithiau America, Malaysia, yr Ariannin, Rwsia a chyflenwadau o wledydd o fewn yr Undeb Ewropeaidd.

1.12 Ar ôl colli rhai o'i diwydiannau craidd, mae'r ddinas yn ailsefydlu ac addasu ei hun fel canolfan diwydiant a masnach modern, gan ddarparu swyddi a chyfleoedd i bobl leol, a chymunedau ar hyd coridor yr M4 a'r cymoedd dwyreiniol.

1.13 Casnewydd yw'r pedwerydd awdurdod lleol mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gydag 16% o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

1.14 Adran Diogelu'r Cyhoedd yr awdurdod yn y Gwasanaethau Adfywio a Rheoleiddio sy'n gyfrifol am orfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, ac ymchwilio i achosion o wenwyn bwyd a chlefydau trosglwyddadwy, a'u rheoli.

1.15 Y Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd sy'n gyfrifol am oruchwylio'r broses o ddarparu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, a'r Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd (diogelwch bwyd, rheoli clefydau trosglwyddadwy ac iechyd porthladd) a'r Rheolwr Safonau Masnach (safonau bwyd a bwyd anifeiliaid) sy'n gyfrifol am reolaeth dydd i ddydd.

1.16 Roedd y swyddogion a'r staff cymorth a oedd yn gyfrifol am hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid wedi'u lleoli mewn swyddfeydd yn Nepo Telford, Stryd Telford, Casnewydd.

1.17 Yn 2013/14, adroddodd yr awdurdod fod 1,392 o sefydliadau bwyd yng Nghasnewydd, y rhoddwyd eu proffil yng Nghynllun Uned Busnes Diogelwch Bwyd a Chlefydau Trosglwyddadwy 2013/14:

| Math o safle bwyd | Nifer |
|---|---|
| Cynhyrchwyr Cynradd | 3 |
| Dosbarthwyr/Cludwyr | 24 |
| Lladd-dai | 0 |
| Gweithgynhyrchwyr a Phacwyr | 48 |
| Mewnforwyr/Allforwyr | 2 |
| Manwerthwyr | 278 |
| Bwytai ac Arlwywyr | 1034 |
| **Cyfanswm nifer y safleoedd bwyd** | **1,392*** |

*Nid yw'r cyfanswm yn dod i swm y cydrannau, sef 1,389

D.S. Nid oedd y proffil safleoedd a roddwyd uchod yn gyson â hwnnw a ddarparwyd yng Nghynllun Gorfodi Cyfraith Safonau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2013/14.

1.18 Rhoddwyd proffil sefydliadau bwyd anifeiliaid yng Nghynllun Darparu Gwasanaeth Gorfodi Safonau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2013/14:

| Math o safle bwyd anifeiliaid | Nifer |
|---|---|
| Bwyd Anifeiliaid – Gweithgynhyrchwr | 29 |
| Bwyd Anifeiliaid – Manwerthwr | 16 |
| Gweithgynhyrchwr Bwyd Anifeiliaid Anwes | 0 |
| Cymysgwyr ar y Fferm Cymeradwy/Cofrestredig | 7 |

| | |
|---|---|
| Cymysgwyr ar y Fferm Eraill/Defnydd o Fwyd Anifeiliaid Cyfansawdd | 96 |
| Cyfryngwyr/Cyfanwerthwyr Bwyd Anifeiliaid | 1 |
| Mewnforwyr Deunyddiau Bwyd Anifeiliaid | 6 |

1.19 Roedd yr awdurdod wedi arwain y ffordd wrth gydlynu Prosiect Bwyd Anifeiliaid Gwent Fwyaf yn 2012/13. Diben y prosiect oedd casglu gwybodaeth am y canlynol:

- Cysondeb asesiadau risg ar ffermydd ledled awdurdodau Gwent Fwyaf;
- Cysondeb a chywirdeb codau gweithgaredd bwyd anifeiliaid;
- Rheoli a storio bwyd anifeiliaid gan weithredwyr busnes bwyd anifeiliaid;
- Nifer y sefydliadau sydd angen systemau HACCP bwyd anifeiliaid cofnodedig;
- Asesu systemau HACCP i sefydlu a yw rheolaethau'n effeithiol ac yn gyson, ac awgrymu gwelliannau;
- Sut mae gwybodaeth yn ymwneud â sefydliadau bwyd anifeiliaid, gan gynnwys dogfennau, yn cael ei storio a'i chynnal;
- Yr offer samplu bwyd anifeiliaid a ddelir gan bob awdurdod;
- Y defnydd o gyd-gynhyrchion, gan ffermwyr a chyflenwyr;

1.20 Amlygodd y prosiect y ffaith bod angen i reolaethau bwyd anifeiliaid swyddogol gael eu cynyddu'n sylweddol ar adeg pan fo'r adnoddau ar gyfer gorfodi wedi'u lleihau'n sylweddol, gyda chynlluniau i'r gostyngiad barhau.

1.21 Yn ôl Cynllun Uned Busnes Diogelwch Bwyd a Chlefydau Trosglwyddadwy 2013/14, roedd yr awdurdod wedi dyrannu'r staff cyfwerth ag amser llawn canlynol i ddarparu rheolaethau swyddogol diogelwch bwyd a rheoli clefydau trosglwyddadwy:

**Hylendid Bwyd – Cyfwerth ag Amser Llawn**
1.0 Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd
4.0 Uwch Swyddog Iechyd yr Amgylchedd
1.0 Uwch Swyddog Technegol
1.0 Swyddog Diogelwch Bwyd
0.48 Swyddog Clercyddol

1.22 Manylwyd ar yr adnoddau staff a ddyrannwyd i safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yng Nghynllun Darparu Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Safonau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2013/14:

**Safonau Bwyd – Cyfwerth ag Amser Llawn**
0.4 Prif Swyddog Safonau Masnach (AH)
0.05 Prif Swyddog Safonau Masnach (FT)

0.05 Swyddog Safonau Masnach – Arweinydd Tîm
1.0 Uwch Swyddog Safonau Masnach/Swyddog Safonau Masnach (5 swyddog)
0.025 Rheolwr Safonau Masnach

**Bwyd Anifeiliaid – Cyfwerth ag Amser Llawn**
0.4 Prif Swyddog Safonau Masnach (AH)
0.05 Uwch Arolygydd Iechyd Anifeiliaid
0.025 Rheolwr Safonau Masnach
0.05 Swyddogion Safonau Masnach eraill

1.23 Adroddwyd bod £291,500 wedi'i wario ar ddiogelwch bwyd a £649,500 ar Safonau Masnach (gan gynnwys Iechyd Anifeiliaid) yng Nghynllun Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd 2013/14. Ni roddwyd cyfran y gyllideb Safonau Masnach a ddyrannwyd i orfodi safonau bwyd a bwyd anifeiliaid.

1.24 Roedd yr awdurdod wedi bod yn cymryd rhan yn y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol a lansiwyd yng Nghymru ym mis Hydref 2010. Roedd sgorau hylendid bwyd 1,027 o sefydliadau bwyd yng Nghasnewydd ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol.

1.25 Ar adeg yr archwiliad, roedd yr awdurdod yn gweithio gydag awdurdodau cyfagos i archwilio sut gallai'r gwasanaeth Safonau Masnach (gan gynnwys safonau bwyd a bwyd anifeiliaid) gael ei ddarparu'n rhanbarthol yn ardal Gwent Fwyaf.

## 2 Crynodeb Gweithredol

2.1 Archwiliwyd Cyngor Dinas Casnewydd yn rhan o raglen dreigl tair blynedd o wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid y 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Roedd gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael eu darparu gan Wasanaeth Diogelu'r Cyhoedd yr awdurdod. Y Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd oedd yn gyfrifol am oruchwylio'r broses o ddarparu'r gwasanaethau hyn. Y Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd oedd yn gyfrifol am reolaeth dydd i ddydd gorfodi cyfraith hylendid bwyd. Y Rheolwr Safonau Masnach oedd yn gyfrifol am safonau bwyd a bwyd anifeiliaid.

2.2 Roedd nifer o ddogfennau cynllunio gwasanaeth wedi'u datblygu yn amlinellu cynlluniau'r awdurdod ar gyfer darparu gwasanaethau hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. Roedd cynlluniau ar gyfer safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn cyd-fynd â'r Canllaw Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith i raddau helaeth. Roedd angen datblygu'r Cynllun Gwasanaeth Diogelwch Bwyd a Chlefydau Trosglwyddadwy ymhellach i fodloni gofynion y Safon.

2.3 Mae lleoliad strategol Casnewydd ar goridor yr M4 yn darparu porth rhwng Cymru a Lloegr. Ystyrir bod y ddinas yn ganolfan economaidd bwysig, gan gyflawni swyddogaeth allweddol yn yr economi ranbarthol. Mae'r trosiant busnes uchel a adroddir gan swyddogion yn cyflwyno heriau parhaus o ran gorfodi cyfraith bwyd. Er hynny, mae adfywio economaidd yn flaenoriaeth gorfforaethol ac roedd yr awdurdod yn gallu dangos y bu'n rhagweithiol wrth roi cyngor ar hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid i fusnesau lleol er mwyn eu cynorthwyo i gydymffurfio â'r gyfraith.

2.4 O ystyried y ffaith bod gan yr awdurdod y gyfran uchaf ond un o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru, roedd yn wynebu heriau ychwanegol wrth sicrhau bod gofynion deddfwriaethol yn cael eu cyfleu'n effeithiol wrth weithredwyr busnesau bwyd nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt o bosibl, a bod y gweithredwyr hynny'n deall y gofynion.

2.5 O ran hylendid bwyd, roedd yr awdurdod yn gallu dangos ei fod wedi mabwysiadu ymagwedd seiliedig ar risg tuag at arolygu busnesau bwyd. Fodd bynnag, ar adeg yr archwiliad, roedd nifer o ymyriadau hylendid bwyd yn hwyr, gan gynnwys rhai ar gyfer sefydliadau risg uwch. Roedd yr awdurdod yn hyderus y byddai'r rhaglen ymyriadau hylendid bwyd yn cael ei chwblhau erbyn diwedd y flwyddyn. Yn gyffredinol, roedd rheolaethau swyddogol hylendid bwyd wedi'u cyflawni yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog, er bod angen gwelliannau i ymagwedd yr awdurdod o ran sefydliadau cymeradwy.

2.6 Roedd yr awdurdod yn gallu dangos tystiolaeth fod camau gorfodi ffurfiol wedi'u cymryd i fynd i'r afael ag achosion o dorri rheolaethau hylendid bwyd mewn sefydliadau bwyd nad oeddent yn cydymffurfio, lle y bo'r angen.

2.7 Er gwaethaf y ffaith nad oedd y cynllun sgorio risg safonau bwyd a oedd yn cael ei ddefnyddio yn cyd-fynd â'r cynllun sgorio risg yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, roedd yr awdurdod wedi mabwysiadu ymagwedd seiliedig ar risg tuag at ymyriadau safonau bwyd. Amlygwyd yr angen am gofnodion gwell i alluogi'r awdurdod i ddangos bod asesiadau cynhwysfawr wedi'u cynnal o gydymffurfiaeth busnesau bwyd â'r gyfraith safonau bwyd.

2.8 Roedd gwasanaeth bwyd anifeiliaid yr awdurdod wedi bod yn destun archwiliad â ffocws gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn 2011. Amlygwyd un ar bymtheg o argymhellion ar gyfer gwella, ac roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod pob un ond pump wedi'u rhoi ar waith. Roedd gwelliannau arwyddocaol wedi'u gwneud o ran gweithredu rheolaethau bwyd anifeiliaid wedi'i fewnforio yn Nociau Casnewydd. Amlygwyd bod angen gwella dulliau'r awdurdod o arolygu sefydliadau bwyd anifeiliaid, yr wybodaeth a ddarperir i weithredwyr busnes bwyd anifeiliaid yn dilyn arolygiadau o sefydliadau bwyd anifeiliaid, y gronfa ddata sefydliadau bwyd anifeiliaid a threfniadau monitro mewnol ar gyfer gweithgareddau bwyd anifeiliaid. Roedd trefniadau boddhaol ar waith ar gyfer ymchwilio i gwynion ynghylch bwyd anifeiliaid. Roedd yr awdurdod wedi gweithio ar y cyd ag awdurdodau lleol yng Ngwent er mwyn gwella'r broses o gyflawni rheolaethau bwyd anifeiliaid swyddogol yn y rhanbarth.

**2.9 Cryfderau'r Awdurdod**

**Cwynion ynghylch Bwyd, Bwyd Anifeiliaid a Sefydliadau Bwyd**
Roedd cwynion ynghylch hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid wedi'u hymchwilio yn unol â gweithdrefnau'r awdurdod. Cysylltwyd â rhanddeiliaid mewn achosion perthnasol a hysbyswyd achwynwyr am ganlyniad ymchwiliadau.

**Cyngor ar Hylendid Bwyd, Safonau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid i Fusnesau**
Roedd yr awdurdod wedi bod yn rhagweithiol wrth roi cymorth i fusnesau er mwyn eu helpu i gydymffurfio â'r gyfraith.

**Digwyddiadau Bwyd a Diogelwch Bwyd**
Roedd y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer cychwyn ac ymateb i rybuddion a digwyddiadau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid yn effeithiol ac yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol.

**Cysylltu â Sefydliadau Eraill**

Roedd trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer cysylltu â sefydliadau eraill ar draws gwasanaethau gorfodi hylendid bwyd, safonau bwyd a gorfodi bwyd anifeiliaid.

**Cwynion ynghylch y Gwasanaeth**
Roedd rheolwyr yn gallu dangos bod trefniadau effeithiol ar waith i ymchwilio i gwynion ynghylch gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid.

**Ymyriadau ac Arolygiadau Iechyd Porthladd**
Roedd 'gweithdrefn dargedu' gynhwysfawr seiliedig ar risg ar gyfer arolygu llongau yn sicrhau bod dyletswyddau'r awdurdod o dan ddeddfwriaeth fwyd yn cael eu targedu'n effeithiol. Roedd cydymffurfiaeth llongau wedi'i hasesu yn ôl safonau a bennwyd yn gyfreithiol, ac roedd camau priodol wedi'u cymryd lle yr amlygwyd diffyg cydymffurfiaeth.

## 2.10 Meysydd Gwella Allweddol yr Awdurdod

**Trefniadaeth a Rheolaeth Hylendid Bwyd**
Roedd angen i Gynllun Gwasanaeth Diogelwch Bwyd a Chlefydau Trosglwyddadwy'r awdurdod gael ei ddatblygu ymhellach i fynd i'r afael â holl ofynion y Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith.

**Amlder Ymyriadau Hylendid Bwyd, Safonau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid**
Nid oedd yr awdurdod yn cynnal ymyriadau hylendid bwyd, safonau bwyd na bwyd anifeiliaid ar yr amlder gofynnol a nodir yn y Codau Ymarfer. Mae ymyriadau a gynhelir ar yr amlder gofynnol yn sicrhau bod risgiau sy'n gysylltiedig â busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael eu hamlygu a'u dilyn mewn modd amserol.

**Cronfa Ddata Sefydliadau Bwyd Anifeiliaid**
Cydnabu'r archwilwyr fod gwaith wedi'i wneud i wella cronfa ddata sefydliadau bwyd anifeiliaid yr awdurdod. Fodd bynnag, roedd anghysondebau yn y data a adroddwyd i'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn dangos bod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod y gronfa ddata sefydliadau bwyd anifeiliaid yn gyfredol a chywir.

**Ymyriadau ac Adroddiadau Bwyd Anifeiliaid**
Roedd arolygiadau bwyd anifeiliaid yn rhai y rhoddwyd rhybudd ohonynt yn hytrach na rhai dirybudd i raddau helaeth, ac roedd sgôr risg wedi'i rhoi i sefydliadau heb arolygiad. Nid oedd digon o fanylion wedi'u darparu ar ffurflenni arolygu a oedd, mewn rhai achosion, wedi'u llenwi'n rhannol yn unig. Nid oedd y cynllun sgorio risg a oedd ar waith yn cyd-fynd â'r cynllun sgorio risg yn Atodiad 5 y Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith

Bwyd Anifeiliaid. Ni ddarparwyd adroddiadau i weithredwyr busnesau bwyd anifeiliaid yn dilyn arolygiadau.

**Ymyriadau ac Adroddiadau Safonau Bwyd**

Roedd rhai sefydliadau bwyd wedi cael sgôr risg heb arolygiad ac nid oedd cofnodion yn ddigon manwl i ddangos bod asesiad trylwyr o gydymffurfiaeth busnes â gofynion cyfreithiol wedi'i gynnal nac i gadarnhau'r sgoriau risg a roddwyd. Yn ogystal, nid oedd y cynllun sgorio risg a oedd ar waith yn cyd-fynd â'r cynllun sgorio risg yn Atodiad 5 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Nid oedd yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd wedi'i darparu i weithredwyr busnesau bwyd yn dilyn arolygiadau.

**Trefniadau Monitro Mewnol ar gyfer Bwyd Anifeiliaid**

Nid oedd cofnodion monitro mewnol ansoddol ar gyfer gweithgareddau bwyd anifeiliaid ar gael.

## Canfyddiadau'r Archwiliad

## 3 Trefniadaeth a Rheolaeth

*Fframwaith Strategol, Polisi a Chynllunio Gwasanaeth*

3.1 Roedd yr awdurdod yn gweithredu dull Cabinet o lywodraeth leol gyda Chyfansoddiad a oedd yn amlinellu trefniadau'r awdurdod ar gyfer gwneud penderfyniadau. O dan y Cyfansoddiad, roedd penderfyniadau am rai materion penodol wedi'u dirprwyo i swyddogion.

3.2 Roedd 'Cynllun Uned Busnes Diogelwch Bwyd a Chlefydau Trosglwyddadwy 2013/14' a 'Safonau Masnach – Cynllun Darparu Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Safonau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2013/14' wedi'u datblygu. Roeddent wedi cael eu cymeradwyo gan yr Aelod Cabinet perthnasol. Roedd y Cynllun Uned Busnes Diogelwch Bwyd a Chlefydau Trosglwyddadwy 2013/14 ar gael ar wefan yr awdurdod.

3.3 Roedd y dogfennau ychwanegol canlynol ar gael hefyd, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheoli clefydau trosglwyddadwy ac iechyd porthladdoedd yr awdurdod:

- Cynllun Uned Busnes Iechyd yr Amgylchedd 2013/14
- Cynllun Uned Busnes ac Asesiad Strategol Safonau Masnach 2013/14
- Cynllun Darparu Gwasanaeth Safonau Masnach 2013/14
- Cynllun Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd 2013/14
- Gwasanaethau Adfywio a Rheoleiddio – Cynllun Gwella Gwasanaeth 2014/14

3.4 O ystyried y cynlluniau uchod gyda'i gilydd, roedd yr wybodaeth a ddarparwyd ynddynt mewn perthynas â safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn bodloni'r gofynion a amlinellir yn y Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith, i raddau helaeth. O ran hylendid bwyd, roedd angen i ddogfennau cynllunio gael eu datblygu ymhellach i gydymffurfio'n llawn â'r Safon.

3.5 Roedd cyfraniad gwasanaethau bwyd a bwyd anifeiliaid yr awdurdod at y Blaenoriaethau Gorfodi Cenedlaethol ar gyfer Cymru, Cynllun Corfforaethol y Cyngor, 'Sefyll dros Gasnewydd', a'r Cynllun Integredig Sengl, 'Teimlo'n Dda am Gasnewydd', wedi'i amlygu yn y Cynlluniau Gwasanaeth.

3.6 Nid oedd y pwyntiau darparu gwasanaeth a ddefnyddir gan yr awdurdod, a'r amserau yr oedd gwasanaethau ar gael, wedi'u cynnwys.

3.7 Roedd y Cynllun Uned Busnes Diogelwch Bwyd a Chlefydau Trosglwyddadwy yn amlinellu'r amcanion allweddol ar gyfer y gwasanaeth:

- Gorfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd a hylendid fel y'i gorchmynnir gan statud;
- Ceisio sicrhau bod bwyd sy'n tarddu o'r Ddinas neu'n cael ei gyflenwi yn y Ddinas yn ddiogel i'w fwyta;
- Ceisio sicrhau bod pob busnes sy'n gwneud a/neu'n cyflenwi bwyd yn y Ddinas yn bodloni safonau hylendid bwyd;
- Annog busnesau i gydymffurfio â deddfwriaeth fwyd drwy ddarparu gwybodaeth a chanllawiau eglur ynglŷn â'u cyfrifoldebau cyfreithiol a thrwy hybu ymwybyddiaeth a chyswllt busnesau ac egwyddor yr awdurdod cartref/arweiniol a thrwy ffurfio partneriaethau cydweithrediadol â Phrif Awdurdodau;
- Cymryd camau gorfodi priodol a phwyllog yn erbyn busnesau sy'n torri deddfau diogelwch bwyd, gan gynnwys cychwyn camau cyfreithiol yn erbyn troseddwyr mynych neu mewn amgylchiadau mwy difrifol yn unol â'n polisi gorfodaeth;
- Cynnal rhaglen samplu bwyd i fonitro ansawdd microbiolegol bwyd sy'n barod i'w fwyta a wneir neu a werthir yn y Ddinas ar sail risg i iechyd ac ar y cyd â mentrau rhanbarthol a chenedlaethol;
- Ymateb fel y bo'n briodol i bob rhybudd bwyd a gyhoeddir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd;
- Ymateb fel y bo'n briodol i bob hysbysiad o glefyd heintus neu wenwyn bwyd a amheuir yn unol â gofynion y Cynllun Achosion ar y cyd â'r ymgynghorydd rheoli clefydau trosglwyddadwy.

3.8 Nid oedd proffil risg hylendid bwyd sefydliadau bwyd yng Nghasnewydd wedi'i ddarparu yng Nghynllun Diogelwch Bwyd a Chlefydau Trosglwyddadwy 2013/14, ond roedd ymrwymiad i arolygu 100% o sefydliadau bwyd risg uwch yr oedd yn bryd iddynt gael eu harolygu:

**Hylendid Bwyd*:***

| Categori risg | Nifer yr ymyriadau yr oedd eu hangen o dan y Cod Ymarfer |
|---|---|
| A | 38 |
| B | 171 |
| C | 350 |

3.9 Yn ogystal ag ymyriadau mewn sefydliadau bwyd risg uwch, roedd yr awdurdod wedi ymrwymo i gynnal arolygiadau mewn 20 sefydliad categori D y dylid bod wedi'u harolygu cyn mis Ebrill 2012 ac ym mhob sefydliad heb sgôr a oedd wedi cofrestru cyn 1 Ebrill 2013, rhoi

holiaduron hunanasesu i fusnesau newydd a gofrestrodd ar ôl 1 Ebrill 2013 a/neu eu harolygu o fewn 28 niwrnod, a rhoi holiaduron gwerthuso risg i bob sefydliad categori E y disgwyliwyd iddynt gael arolygiad cyn 1 Ebrill 2013. Nid oedd yr ymyriadau diweddarach wedi cael eu meintioli. Roedd ymrwymiad hefyd i arolygu'r holl sefydliadau cymeradwy yn unol â'r amlderau arolygu a amlinellir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

3.10 Ni ddarparwyd amcangyfrif o nifer yr ailymweliadau hylendid bwyd a gynhaliwyd i ddilyn trywydd unrhyw ddiffyg cydymffurfio a amlygwyd.

3.11 Rhoddwyd manylion y trefniadau a'r blaenoriaethau ar gyfer samplu bwyd ac ymdrin â digwyddiadau yn y Cynllun Gwasanaeth. Fodd bynnag, ni ddarparwyd amcangyfrif o nifer y samplau i'w cymryd, y galw tebygol o ran digwyddiadau a'r adnoddau sy'n ofynnol.

3.12 Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn manylu ar drefniadau'r awdurdod ar gyfer ymdrin â chwynion ynghylch bwyd a hysbysiadau o glefydau trosglwyddadwy a gludir mewn bwyd, ynghyd ag amcangyfrif o'r galw tebygol yn seiliedig ar ddata blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, ni roddwyd syniad o'r adnoddau y byddai eu hangen.

3.13 O ran hylendid bwyd, nid oedd yr awdurdod yn gweithredu fel Prif Awdurdod nac Awdurdod Cartref ar gyfer unrhyw fusnes ac nid oedd datganiad ynghylch Prif Awdurdod/Awdurdod Cartref wedi'i gynnwys yn y Cynllun Gwasanaeth. Yn ymarferol, canfuwyd bod yr awdurdod yn ystyried y materion hyn yn rhinwedd ei swyddogaeth fel awdurdod gorfodi wrth ymdrin â busnesau perthnasol.

3.14 Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn cynnwys nifer y swyddi a oedd ar gael i ddarparu'r gwasanaeth hylendid bwyd, ond nid y rhai hynny yr oedd eu hangen. Gwybodaeth gyfyngedig yn unig a ddarparwyd am y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer cysylltu â sefydliadau eraill i sicrhau gorfodi cyson a'r gwaith hyrwyddo a gynlluniwyd. Fodd bynnag, yn ymarferol, canfuwyd bod y trefniadau cysylltu'n arbennig o gadarn.

3.15 Roedd y galwadau ar y gwasanaeth hylendid bwyd yn sgil y nifer fawr o ddigwyddiadau dros dro sy'n cael eu cynnal yng Nghasnewydd wedi'u hamlygu fel her benodol. Ni ddarparwyd amcangyfrif o oblygiadau'r gwaith hwn ar adnoddau, ond roedd yr awdurdod wedi ymrwymo i arolygu 100% o unedau arlwyo yn y digwyddiadau hyn. Gan na roddwyd nifer yr unedau arlwyo yn y Cynllun Gwasanaeth, trafodwyd manteision cynnwys yr wybodaeth hon, ynghyd ag amcangyfrif o'r adnoddau y byddai eu hangen i gynnal y gwaith mewn cynlluniau yn y dyfodol.

3.16 Nid oedd datblygiad staff a monitro rheolaethau hylendid bwyd swyddogol yn fewnol wedi derbyn sylw yn y Cynllun Gwasanaeth, yn groes i'r canllawiau cynllunio gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith.

3.17 Roedd y gyllideb diogelwch bwyd wedi'i hamlinellu yn y Cynllun Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd, ac adroddwyd mai £291,500 ydoedd ar gyfer 2013/14. I fodloni gofynion y Cytundeb Fframwaith, dylid darparu mwy o fanylion am y gyllideb ynghyd â'r duedd ar gyfer twf neu ostyngiad mewn termau gwirioneddol.

3.18 Canfuwyd bod y trefniadau ar gyfer adolygu ac adrodd ar berfformiad yn unol â Chynlluniau Gwasanaeth ac amlygu amrywiadau a meysydd i'w gwella oll yn foddhaol.

3.19 Roedd blaenoriaethau ar gyfer Safonau Masnach wedi'u hamlygu mewn dogfennau Cynllunio Gwasanaeth, ac roeddent yn cynnwys:

- Cynnal amgylchedd masnachu diogel a theg ar gyfer defnyddwyr a masnachwyr;
- Sicrhau bod y gadwyn fwyd yn gadarn o'r pridd i'r plât a gwella gwybodaeth am fwyd, iechyd a maeth.

3.20 Roedd gwybodaeth am broffil risg busnesau mewn perthynas â safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, ynghyd â nifer yr ymyriadau y disgwyliwyd iddynt gael eu cynnal yn 2013/14, wedi'i chynnwys yn y Cynllun Gorfodi Safonau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid:

**Proffil Sgoriau Risg Bwyd a Bwyd Anifeiliaid LACORS**

| Categori risg | Uchel | Canolig | Isel |
|---|---|---|---|
| Proffil safonau bwyd LACORS | 71 | 454 | 768 |
| Targed o ran safonau bwyd | 71 | 227 | 154 |
| Proffil bwyd anifeiliaid LACORS | 36 | 28 | 91 |
| Targed o ran bwyd anifeiliaid | 36 | 14 | 18 |

3.21 Er y darparwyd nifer yr ymyriadau a ddisgwyliwyd yn ôl categori risg, ni roddwyd amcangyfrif o nifer y busnesau newydd y byddai angen ymyrraeth arnynt, na nifer yr ailymweliadau â sefydliadau bwyd a bwyd anifeiliaid yn ystod y flwyddyn.

3.22 Roedd Cynllun Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Safonau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2013/14 yn mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r gofynion a amlinellwyd yn y Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith, gan gynnwys y gofyniad i adolygu'r gwasanaeth a'r angen i fynd i'r afael ag amrywiadau wrth fodloni gofynion cynlluniau blaenorol.

Fodd bynnag, dylai cynlluniau yn y dyfodol gynnwys amcangyfrif manylach o’r galw am y gwasanaeth, amcangyfrif o’r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu’r gwasanaeth o gymharu â’r rhai hynny sydd ar gael a gwybodaeth fanylach am y gyllideb, gan gynnwys datganiad ynghylch tuedd twf neu ostyngiad.

***Argymhelliad***

3.23 Dylai’r awdurdod:

(i) O ran hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, ddatblygu’r trefniadau cynllunio gwasanaeth ymhellach, yn unol â’r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. Dylid cynnwys asesiad o’r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid o gymharu â’r adnoddau sydd ar gael. [Y Safon – 3.1]

## 4 Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau Cofnodedig

4.1 Roedd yr awdurdod wedi datblygu ystod o bolisïau a gweithdrefnau i gefnogi'r broses o weithredu rheolaethau bwyd a bwyd anifeiliaid swyddogol. Roedd rhai o'r rhain wedi'u seilio ar y templedi a gynhyrchwyd ar y cyd gan Banel Technegol Diogelwch Bwyd Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru, ac roedd eraill yn benodol i Gasnewydd.

4.2 Roedd systemau rheoli dogfennau wedi'u sefydlu ar gyfer Safonau Masnach ac Iechyd yr Amgylchedd – Diogelwch Bwyd. Y Rheolwr Safonau Masnach a'r Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd – Diogelwch Bwyd oedd yn diwygio polisïau a gweithdrefnau presennol a chreu rhai newydd. Roedd y swyddogion hyn yn gyfrifol am sicrhau nad oedd dogfennau a ddisodlwyd yn cael eu defnyddio mwyach, a rhoi gwybod i swyddogion am newidiadau.

4.3 Roedd dogfennau 'darllen yn unig' a reolir yn cael eu cadw'n electronig ar yriant a rennir y gallai pob swyddog a oedd yn gyfrifol am weithredu rheolaethau bwyd a bwyd anifeiliaid swyddogol gael mynediad ato.

4.4 O ran hylendid bwyd, roedd rhai dogfennau a reolir e.e. hysbysiadau a phrofformâu, wedi'u cadw ar gronfa ddata sefydliadau bwyd yr awdurdod. Roedd diwygiadau'n cael eu gwneud i'r dogfennau hyn gan y gweinyddwr systemau o dan oruchwyliaeth y Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd.

4.5 Roedd tystiolaeth fod polisïau a gweithdrefnau cofnodedig wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar. Gan fod diwygiadau wedi'u gwneud i sawl gweithdrefn gwaith hylendid bwyd yn ystod yr archwiliad, cynghorodd yr archwilwyr y dylid ystyried rhoi hyfforddiant i swyddogion er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r newidiadau. Ni welwyd bod unrhyw ddogfennau a ddisodlwyd ar waith yn ystod yr archwiliad.

## 5 Swyddogion Awdurdodedig

5.1 Roedd gan yr awdurdod gynllun dirprwyo ar waith a oedd yn rhoi pwerau a dyletswyddau i'r Pennaeth Gwasanaethau Adfywio a Rheoleiddio o dan ddeddfwriaeth Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach. Roedd y rhain yn cynnwys y pŵer i awdurdodi swyddogion a benodir yn briodol. Roedd y cynllun dirprwyo a gweithdrefnau cysylltiedig yn rhoi'r awdurdod priodol i'r Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd, y Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd a'r Rheolwr Safonau Masnach awdurdodi swyddogion ac argymell wrth y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol y dylid cychwyn camau cyfreithiol.

5.2 Roedd y weithdrefn awdurdodi ar gyfer hylendid bwyd yn mynnu bod cymwysterau, hyfforddiant a chymhwysedd swyddogion yn cael eu hasesu cyn iddynt gael eu hawdurdodi. Y Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd oedd yn gyfrifol am gynnal yr asesiadau hyn ac argymell y lefel awdurdodiad priodol wrth y Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd.

5.3 Nid oedd awdurdodi swyddogion safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn seiliedig ar asesiad cofnodedig o gymhwysedd, er y dywedodd y Rheolwr Safonau Masnach wrth yr archwilwyr fod cymwysterau a hyfforddiant swyddogion wedi'u hystyried cyn awdurdodi.

5.4 Nid oedd gweithdrefnau awdurdodi swyddogion yn cynnwys cyfeiriad at hyfforddiant i ddechreuwyr newydd na hyfforddiant gloywi, fel sy'n ofynnol gan Godau Ymarfer a Chanllawiau Ymarfer y Gyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid.

5.5 Roedd swyddogion gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid wedi'u hawdurdodi o dan ystod o ddeddfwriaeth berthnasol. Fodd bynnag, sylwodd yr archwilwyr fod swyddogion wedi'u hawdurdodi'n gyffredinol o dan rai mathau o ddeddfwriaeth yn groes i ganllawiau a gyhoeddir yn ganolog, sy'n datgan bod angen i swyddogion gael eu hawdurdodi ar wahân i ymdrin â materion sy'n codi o dan Reoliadau gweithredu penodol. Dywedwyd wrth yr archwilwyr yr ymgynghorwyd ag adran gyfreithiol yr awdurdod a'i bod yn fodlon y byddai'r awdurdodiadau presennol yn gwrthsefyll her gyfreithiol. Yn ymarferol, roedd swyddogion yn ymgymryd â dyletswyddau a oedd yn gyson â'r gofynion cymhwysedd a amlinellir yn y Codau Ymarfer perthnasol yn gyffredinol.

5.6 Roedd yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi awdurdodi chwech o swyddogion yr awdurdod o dan Ddeddf Bwyd a Diogelu'r Amgylchedd 1985. Sylwodd yr archwilwyr fod yr awdurdod wedi awdurdodi swyddogion eraill o dan y ddeddfwriaeth hon, er nad oedd ganddo'r awdurdod i wneud hynny. Dylai'r cyfeiriad at Ddeddf Bwyd a Diogelu'r Amgylchedd 1985 gael ei ddileu o awdurdodiadau swyddogion nad ydynt wedi'u hawdurdodi gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Fel arall, cynghorwyd yr awdurdod y gellid cyflwyno cais i'r Asiantaeth Safonau Bwyd awdurdodi'r swyddogion hyn.

5.7 Roedd swyddogion arweiniol a chanddynt gymwysterau a phrofiad addas wedi'u hamlygu ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd. Roedd swyddogion arbenigol wedi'u penodi hefyd ar gyfer bwyd anifeiliaid a rheoli clefydau trosglwyddadwy. Roedd swyddogion a oedd yn cyflawni dyletswyddau iechyd porthladd yn meddu ar yr wybodaeth arbenigol a fynnir gan y rôl.

5.8 Archwiliwyd cymwysterau, cofnodion hyfforddiant ac awdurdodiadau deg swyddog. Roedd y rhain yn cynnwys swyddogion hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid.

5.9 Sylwodd yr archwilwyr nad oedd gan ddau swyddog a oedd yn cyflawni dyletswyddau bwyd anifeiliaid lefel un gymwysterau yn unol â gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd Anifeiliaid na'u hawdurdodiadau. Ataliwyd un o'r swyddogion hyn rhag ymgymryd â dyletswyddau bwyd anifeiliaid yn ystod yr archwiliad. Nododd archwilwyr fod y swyddog arall yn gweithio tuag at y cymhwyster priodol yn 2015.

5.10 Roedd gan yr awdurdod systemau ar waith i amlygu anghenion hyfforddiant swyddogion gan ddefnyddio'r broses rheoli perfformiad 'Fy Adolygiad' a chyfarfodydd un i un â swyddogion. Ar ôl archwilio sampl o gofnodion hyfforddiant swyddogion, cadarnhawyd bod swyddogion yn derbyn y 10 awr orfodol o ddatblygiad proffesiynol parhaus sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd yn gyffredinol. Nid oedd dau swyddog hylendid bwyd wedi derbyn 10 awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus yn ystod y flwyddyn flaenorol, ynghyd ag un swyddog bwyd anifeiliaid. Yn ystod yr archwiliad, penderfynodd yr awdurdod atal y swyddog hwn rhag ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau bwyd anifeiliaid eraill.

5.11 Sylwodd yr archwilwyr nad oedd cofnodion hyfforddiant swyddogion wedi'u cynnal yn gyson gan yr awdurdod yn gyffredinol, er bod tystiolaeth o welliant diweddar o ran swyddogion hylendid bwyd.

***Argymhellion***

5.12 Dylai'r awdurdod:

(i) Gynnwys cyfeiriad at y trefniadau ar gyfer hyfforddiant dechreuwyr newydd a hyfforddiant gloywi mewn gweithdrefnau awdurdodi a sicrhau bod y gweithdrefnau ar gyfer awdurdodi swyddogion safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn cysylltu lefelau awdurdodi ag asesiad o gymwysterau a chymwyseddau swyddogion, fel sy'n ofynnol gan y Codau Ymarfer Bwyd a Bwyd Anifeiliaid a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 5.1]

(ii) Adolygu a diweddaru dogfennau awdurdodi er mwyn sicrhau eu bod yn

cynnwys cyfeiriadau at yr holl ddeddfwriaeth berthnasol a chyfredol a'u bod yn gyson â dyletswyddau, cymwysterau, hyfforddiant a phrofiad swyddogion, a'r Cod Ymarfer perthnasol. [Y Safon – 5.1 a 5.3]

(iii) Sicrhau bod pob swyddog sy'n cyflawni gwaith gorfodi bwyd anifeiliaid yn meddu ar gymwysterau priodol yn unol â'r Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid a bod yr holl swyddogion awdurdodedig yn cwblhau'r 10 awr angenrheidiol o hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus. [Y Safon – 5.3]

(iv) Sicrhau bod pob swyddog awdurdodedig yn derbyn yr hyfforddiant sy'n angenrheidiol i fod yn gymwys i gyflawni agweddau technegol a gweinyddol y gwaith y byddant yn ymwneud ag ef, yn unol â'r Codau Ymarfer. [Y Safon – 5.4]

(v) Cynnal cofnodion o gymwysterau academaidd neu gymwysterau eraill, hyfforddiant a phrofiad perthnasol pob swyddog awdurdodedig yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol. [Y Safon – 5.5]

## 6 Cyfleusterau ac Offer

6.1 Roedd gan yr awdurdod y cyfleusterau a'r offer angenrheidiol i ddarparu'r gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd yn effeithiol. Nid oedd nifer o eitemau offer sydd eu hangen ar gyfer samplu bwyd anifeiliaid ar gael, ond nodwyd nad oedd angen yr eitemau coll ar gyfer y gweithgareddau samplu a oedd wedi'u rhaglennu. Rhoddwyd manylion yr eitemau coll i'r Prif Swyddog Safonau Masnach. Roedd cyfleusterau storio digonol a oedd yn hygyrch i swyddogion perthnasol wedi'u darparu hefyd.

6.2 Roedd yr awdurdod wedi datblygu gweithdrefn ar gyfer graddnodi thermomedrau a oedd yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod yr holl thermomedrau'n cael eu henwi'n gywir, eu hasesu ar gyfer cywirdeb a'u symud o wasanaeth pe ganfyddid eu bod yn ddiffygiol. Roedd y weithdrefn yn cyfeirio at amlderau profi misol a lefelau goddefiant, ynghyd â'r camau i'w cymryd os aethpwyd heibio i lefelau goddefiant, a oedd yn cyd-fynd â gofynion Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd.

6.3 Roedd swyddogion wedi cael thermomedrau is-goch a thermomedrau profi, a oedd yn cael eu graddnodi gan ddefnyddio thermomedr cyfeirio. Roedd yr awdurdod yn cynnal cofnodion yn ymwneud â graddnodi, ond o'u harchwilio, cadarnhawyd nad oedd gwiriadau'n cael eu cynnal ar bob thermomedr yn unol â'r amserlen a nodwyd yn y weithdrefn.

6.4 Roedd yr awdurdod wedi datblygu gweithdrefn ar gyfer monitro offer samplu bwyd, a oedd yn mynnu bod arweinwyr tîm yn archwilio'r holl offer samplu unwaith bob tri mis er mwyn sicrhau bod digon o gyflenwadau ar gael a bod yr offer yn addas i'r diben. Fodd bynnag, nid oedd cofnodion ar gael i alluogi'r archwilwyr i gadarnhau bod yr holl offer wedi'i nodi ar gyfer ei archwilio na bod gwiriadau wedi'u cynnal o fewn yr amserlenni penodedig.

6.5 Nid oedd yr awdurdod wedi datblygu gweithdrefn gofnodedig ar gyfer cynnal a chadw offer samplu bwyd anifeiliaid; ond, yn gyffredinol, sylwodd yr archwilwyr fod offer ar gael ac yn cael ei gynnal a'i gadw mewn cyflwr da. Trafododd yr archwilwyr fanteision ymestyn cwmpas y weithdrefn Monitro Offer Samplu Bwyd i gynnwys offer samplu bwyd anifeiliaid.

6.6 O ran hylendid bwyd, roedd cronfa ddata'r awdurdod yn gallu darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn gywir ac yn ddibynadwy. Gofynnwyd am nifer o adroddiadau yn ystod yr ymweliad safle a oedd yn gyson â gwybodaeth a ddarparwyd yn flaenorol.

6.7 O ran safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod y gronfa ddata'n gallu darparu rhywfaint o'r wybodaeth a

oedd yn ofynnol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn gywir ac yn ddibynadwy. Fodd bynnag, nid oedd y cynllun sgorio risg a ddefnyddid yn cyfateb i hwnnw yn Atodiad 5 y Codau Ymarfer. Roedd y Rheolwr Safonau Masnach yn ymwybodol o hyn ac esboniodd fod yr awdurdod yn amharod i fudo i gynllun sgorio risg gwahanol o ystyried cynlluniau ar gyfer cydweithredu ar draws awdurdodau lleol Gwent Fwyaf.

6.8 Roedd gan yr Awdurdod systemau wrth gefn wedi'u sefydlu ar gyfer cronfeydd data electronig, ynghyd â systemau i leihau risg llygru neu golli gwybodaeth a ddelir ar ei gronfa ddata gymaint â phosibl. Roedd mesurau diogelwch ar waith hefyd i atal unigolion anawdurdodedig rhag cael mynediad at ddata a'i newid.

***Argymhellion***

6.9 Dylai'r awdurdod:

(i) Sicrhau bod yr ystod angenrheidiol o offer ar gael ar gyfer samplu bwyd anifeiliaid. [Y Safon – 6.1]

(ii) Rhoi ei weithdrefn gofnodedig ar gyfer graddnodi offer hylendid bwyd ar waith yn llawn; datblygu gweithdrefn ar gyfer cynnal a chadw offer bwyd anifeiliaid a'i rhoi ar waith, gan sicrhau bod tystiolaeth o archwiliadau cynnal a chadw a gwasanaeth yn cael ei chynnal. [Y Safon – 6.2]

(iii) Gweithredu'r cronfeydd data safonau bwyd a bwyd anifeiliaid mewn modd sy'n golygu y gellir darparu'r wybodaeth ofynnol i'r Asiantaeth Safonau Bwyd. [Y Safon – 6.2]

## 7 Ymyriadau ac Arolygiadau Sefydliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

### *Hylendid Bwyd*

7.1 Yn 2012/13, roedd yr awdurdod wedi adrodd drwy LAEMS bod 93.08% o fusnesau bwyd categori A-E y dylid bod wedi'u harolygu wedi cael eu harolygu, a bod 88.25% o fusnesau bwyd yn 'cydymffurfio'n gyffredinol' â chyfraith hylendid bwyd (ac eithrio busnesau heb eu sgorio a'r rhai hynny y tu allan i gwmpas y cynllun sgorio risg). Roedd hyn tua 2.95% yn well na'r 85.30% o fusnesau yr adroddwyd eu bod yn 'cydymffurfio'n gyffredinol' yn y flwyddyn flaenorol.

7.2 Roedd yr awdurdod wedi datblygu ystod eang o weithdrefnau cofnodedig gyda'r nod o sefydlu ymagwedd unffurf tuag at yr ystod o ymyriadau hylendid bwyd yr ymgymerwyd â hwy. Roedd y rhain yn cynnwys rheolaethau swyddogol, ailymweliadau a chymeradwyo sefydliadau penodol i gynnyrch. O archwilio'r dogfennau hyn, cadarnhawyd eu bod yn cyfeirio at ddeddfwriaeth berthnasol a'u bod yn unol â gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau perthnasol a gyhoeddir yn ganolog.

7.3 Ar adeg yr archwiliad, roedd 331 o arolygiadau sefydliadau bwyd dros 28 diwrnod yn hwyr, yr oedd dim ond 34 ohonynt yn rhai risg uwch. Dywedodd swyddogion yr awdurdod wrth yr archwilwyr eu bod yn hyderus o gwblhau'r rhaglen arolygu erbyn diwedd y flwyddyn. Roedd y safleoedd risg uwch i fod i gael arolygiad hyd at chwe mis cyn yr archwiliad. Roedd gweddill yr arolygiadau hwyr yn ymwneud â sefydliadau risg is, yr oedd un ohonynt heb gael ei arolygu yn ystod y chwe blynedd flaenorol. Roedd y data hwn yn dangos bod yr awdurdod yn ceisio mabwysiadu dull seiliedig ar risg yn ei raglen ymyriadau hylendid bwyd.

7.4 Roedd yr awdurdod wedi cynnwys adran yn ei weithdrefn ymyrraeth yn manylu ar y broses weinyddol ar gyfer creu cofnodion busnes newydd. Roedd hyn yn cynnwys anfon Holiadur Busnes Newydd a Ffurflen Cofrestru Busnes Bwyd at y gweithredwr busnes bwyd. Defnyddiwyd yr wybodaeth a gafwyd mewn holiaduron a ddychwelwyd i amlygu'r sefydliadau risg uwch a'u blaenoriaethu ar gyfer ymyriadau.

7.5 Roedd yr awdurdod wedi datblygu Ffurflen Arolygiad Hylendid Bwyd wedi'i Raglennu i gynorthwyo swyddogion i arolygu busnesau bwyd. Roedd y ffurflen wedi'i haddasu ar gyfer arolygu sefydliadau sy'n ddarostyngedig i gymeradwyaeth hefyd.

7.6 Yn ystod yr archwiliad, edrychwyd ar gofnodion yn ymwneud â 10 sefydliad bwyd. Roedd yr hanes yn ffeiliau pedwar ohonynt yn cadarnhau eu bod wedi'u harolygu ar yr amlder sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd diweddar, nid

oedd chwech wedi cael eu harolygu ar yr amlder gofynnol, ac roedd pedwar o'r rhain yn sefydliadau risg uwch, h.y. sgôr categori D. Roedd yr holl sefydliadau risg uwch wedi cael eu harolygu rhwng dau a thri mis ar ôl y dyddiadau pryd y dylent fod wedi eu harolygu, heblaw am fusnes newydd, nad oedd wedi derbyn prif arolygiad ers mwy nag wyth mis ar ôl cofrestru â'r awdurdod. Roedd y ddau sefydliad risg is wedi cael eu harolygu rhwng dwy a phedair blynedd ar ôl y dyddiadau pryd y dylent fod wedi eu harolygu. Mae'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a'r Canllawiau Ymarfer yn mynnu bod ymyriadau'n cael eu cynnal o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad pryd y dylid eu cynnal ac, yn achos busnesau newydd, yn amodol ar rywfaint o hyblygrwydd, o fewn 28 diwrnod o ddechrau gweithredu.

7.7 Roedd cofnodion arolygu ar gael ac yn ddarllenadwy ar gyfer y 10 sefydliad bwyd a archwiliwyd. Mewn pum achos, roedd yr wybodaeth a gofnodwyd gan swyddogion ar ffurflenni arolygu'n ddigonol i ddangos bod asesiad o gydymffurfiaeth â gweithdrefnau ar sail Dadansoddi Peryglon a Phwyntiau Rheoli Critigol (HACCP) wedi'i gynnal. Mewn pedwar achos, nid oedd digon o fanylion wedi'u cofnodi ar ffurflenni arolygu i alluogi'r archwilwyr i gadarnhau bod asesiad trylwyr wedi'i gynnal. Yn yr achos a oedd yn weddill, cydnabuwyd bod natur y gweithrediadau bwyd yr ymgymerwyd â hwy'n golygu nad oedd angen i'r busnes ddatblygu system rheoli diogelwch bwyd gofnodedig.

7.8 Roedd archwilwyr yn gallu cadarnhau, yn gyffredinol, bod asesiad digonol o hyfforddiant hylendid sefydliadau sy'n trin a thrafod bwyd wedi'i gynnal. Fodd bynnag, mewn pump o'r deg achos, nid oedd cofnodion ar gael i ddangos tystiolaeth bod cyflenwyr bwyd wedi cael eu gwirio, ac ym mhob achos nid oedd tystiolaeth o asesiad o fwydydd a fewnforiwyd.

7.9 Cadarnhaodd cofnodion arolygu mewn pedwar achos fod swyddogion wedi cynnal asesiad digonol o effeithiolrwydd rheolaethau croeshalogi. Mewn tri achos, nid oedd y gweithrediadau yn y busnesau bwyd hyn yn cynnwys trin a thrafod bwydydd amrwd a bwydydd parod i'w bwyta. Yn y tri achos a oedd yn weddill, roedd y cofnodion yn annigonol i ddangos bod swyddogion wedi rhoi ystyriaeth lawn i gydymffurfiaeth y busnes o ran diogelu bwyd rhag croeshalogi.

7.10 Roedd y sgoriau risg a roddwyd ac a gofnodwyd ar ffeiliau'r sefydliadau bwyd yn gyson â chanfyddiadau'r arolygiad yn gyffredinol. Ond, mewn un achos yn ymwneud â busnes risg isel, roedd sgôr ychwanegol ar gyfer sefydliadau sy'n gweini grwpiau agored i niwed wedi'i rhoi'n amhriodol. Roedd hyn wedi arwain at ddyrannu categori risg uwch, ac felly roedd y sefydliad wedi'i raglennu i gael arolygiad cyn pryd.

7.11 Roedd Gweithdrefn Ailymweliadau Hylendid Bwyd yr awdurdod yn datgan, 'yn gyffredinol, bydd unrhyw fusnes bwyd yr asesir nad yw'n 'cydymffurfio'n gyffredinol' â deddfwriaeth hylendid bwyd yn destun

ailymweliad(au) ynghyd ag unrhyw gamau gorfodi angenrheidiol eraill, gyda'r nod o gyflawni cydymffurfiaeth.' Yn y 10 achos a archwiliwyd, nid oedd angen ailymweliadau â saith sefydliad bwyd. Pan oedd angen ailymweliadau, roedd tystiolaeth ar gael i gadarnhau bod y rhain wedi'u cynnal mewn dau achos. Fodd bynnag, roedd un o'r ailymweliadau wedi'i gynnal 11 niwrnod y tu allan i'r amserlen a bennwyd ym mholisi'r awdurdod. Yn yr achos a oedd yn weddill, roedd yr ailymweliad yn dal i fod o fewn y dyddiad pryd y dylai gael ei gynnal.

7.12 Roedd swyddogion wedi cymryd camau dilynol priodol, yn unol â Pholisi Gorfodi'r awdurdod, ym mhob achos lle yr amlygwyd diffyg cydymffurfiaeth.

7.13 Roedd yr awdurdod wedi datgan cyn yr archwiliad bod naw sefydliad cymeradwy yn ei ardal, yr archwiliwyd eu cofnodion.

7.14 Roedd cymeradwyaeth wedi'i rhoi mewn modd amserol a phriodol at ei gilydd, ond mewn un achos roedd sefydliad yn gweithredu heb gymeradwyaeth gan fod ei gymeradwyaeth amodol wedi dod i ben saith mis yn flaenorol. Arolygwyd y sefydliad hwn a rhoddwyd cymeradwyaeth lawn iddo yn ystod yr archwiliad. Canfuwyd hefyd bod cymeradwyaeth amodol wedi dod i ben o ddau a phedwar mis mewn dau sefydliad arall y rhoddwyd cymeradwyaeth lawn iddynt yn ddiweddarach. Mewn tri achos, nid oedd unrhyw gofnodion i gadarnhau bod ymweliadau wedi'u cynnal o fewn tri mis â sefydliadau y rhoddwyd cymeradwyaeth amodol iddynt cyn ymestyn eu cymeradwyaeth. Mewn achos arall, roedd yr wybodaeth a gasglwyd yn yr ymweliad tri misol, cyn ymestyn y gymeradwyaeth amodol, yn annigonol.

7.15 Cadarnhaodd hanes arolygu fod pum sefydliad cymeradwy wedi cael eu harolygu ar yr amlder sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer. Mewn dau achos, ni ellid cadarnhau hyn oherwydd absenoldeb sgoriau risg. Roedd y sefydliadau nad oeddent wedi'u harolygu ar yr amlder gofynnol yn y categori sgôr C. Roedd un o'r rhain chwe wythnos yn hwyr ac roedd gan y llall fwlch gormodol rhwng arolygiadau blaenorol.

7.16 Yn gyffredinol, roedd sgôr risg gywir wedi'i rhoi i sefydliadau cymeradwy ar adeg yr arolygiad mwyaf diweddar, ond nid oedd yn bosibl cadarnhau hyn mewn un achos oherwydd absenoldeb gwybodaeth am sgôr risg. Mewn tri achos lle y gostyngwyd sgoriau, nid oedd esboniadau wedi'u cofnodi ar y ffeiliau, fel sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Fodd bynnag, roedd y sgoriau a ostyngwyd wedi cael eu monitro a'u cymeradwyo gan reolwyr.

7.17 Ym mhob achos, roedd yr arolygiadau mwyaf diweddar wedi'u cynnal gan swyddogion a chanddynt awdurdodiad a hyfforddiant priodol. Nid oedd y nodiadau arolygu mwyaf diweddar ar gael mewn tri achos. Roedd swyddogion wedi defnyddio ffurflenni arolygu penodol i gynnyrch

priodol mewn pedwar achos. Yn y ddau achos arall, nid oedd y ffurflenni'n annog na chaniatáu casglu'r holl wybodaeth berthnasol ar gyfer y gweithgareddau a oedd yn cael eu cymeradwyo. Roedd yr amrywiadau yn yr wybodaeth a gasglwyd ar ffurflenni arolygu yn golygu nad oedd bob amser yn bosibl cadarnhau natur y gweithrediadau na pha un a oedd asesiad llawn o ofynion cyfreithiol wedi'i gynnal. Er enghraifft, roedd gwybodaeth yn ymwneud ag asesu pwyntiau rheoli critigol a marciau iechyd yn annigonol weithiau.

7.18 Nid oedd yr Awdurdod wedi datblygu Strategaeth Orfodi Amgen (AES) i gadw gwyliadwraeth o sefydliadau risg is.

***Argymhellion***

7.19 Dylai'r awdurdod:

(i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal ar yr amlder gofynnol a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1]

(ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau yn unol â chodau ymarfer perthnasol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog, ac yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r awdurdod. [Y Safon – 7.2]

(iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau â'r safonau a bennwyd yn gyfreithiol a sicrhau bod arsylwadau a wneir wrth gynnal arolygiad yn cael eu cofnodi mewn modd amserol er mwyn atal gwybodaeth berthnasol rhag cael ei cholli. [Y Safon – 7.3 a 7.5]

*Ymweliadau Gwirio Hylendid Bwyd*

7.20 Yn ystod yr archwiliad, cynhaliwyd ymweliadau gwirio â dau sefydliad bwyd gyda swyddogion awdurdodedig yr awdurdod a gynhaliodd yr arolygiadau hylendid bwyd diwethaf. Prif amcan yr ymweliadau oedd ystyried effeithiolrwydd asesiad yr awdurdod o gydymffurfiaeth y busnesau bwyd â gofynion cyfraith bwyd.

7.21 Roedd y swyddogion yn wybodus am y busnesau ac yn dangos dealltwriaeth briodol o'r risgiau diogelwch bwyd. Roeddent wedi cynnal arolygiadau trylwyr ac wedi asesu cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog yn briodol. Roeddent yn cynnig cyngor defnyddiol i'r gweithredwyr busnes bwyd hefyd.

7.22 Roedd canfyddiadau'r arolygiadau blaenorol, y cofnodwyd eu manylion yn y ffeil, yn adlewyrchu'r amodau a arsylwyd yn y sefydliadau a, lle'r oedd angen, roedd tystiolaeth fod camau dilynol priodol wedi'u cymryd.

***Safonau Bwyd***

7.23 Roedd gan yr awdurdod weithdrefn arolygu safonau bwyd a oedd yn datgan y dylid gwirio'r gronfa ddata cyn cynnal ymweliadau ac, oni bai bod rheswm i wneud hynny, na ddylid rhoi gwybod i fusnesau bod swyddogion yn bwriadu ymweld. Trafododd yr archwilwyr fanteision sicrhau bod y weithdrefn yn cynnwys y materion y dylai swyddogion eu hystyried yn ystod arolygiadau.

7.24 Archwiliwyd cofnodion arolygu yn ymwneud â 10 sefydliad bwyd a fu'n destun arolygiad yn ôl yr awdurdod. Amlygodd wiriadau archwilio nad oedd pob sefydliad wedi cael arolygiad safonau bwyd. Yn arbennig, roedd cofnodion yn ymwneud ag un sefydliad yn dangos nad oedd y busnes erioed wedi masnachu, canfuwyd nad oedd sefydliad arall yn fusnes bwyd, ac roedd trydydd wedi cael sgôr bwrdd gwaith.

7.25 Lle'r oedd cofnodion yn cadarnhau bod arolygiadau wedi'u cynnal, roedd y rhain wedi'u cyflawni gan swyddogion a chanddynt gymwysterau ac awdurdodiad priodol.

7.26 Nid oedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod yr amlder rhwng arolygiadau wedi bod yn unol â gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd gan fod sefydliadau bwyd wedi cael sgôr risg gan ddefnyddio cynllun nad oedd yn cyd-fynd â'r cynllun sgorio risg yn Atodiad 5.

7.27 Roedd ffurflen arolygu wedi'i datblygu i gynorthwyo swyddogion i gasglu gwybodaeth yn ystod arolygiadau, ac roedd copi ohono'n cael ei roi i weithredwyr busnes bwyd fel adroddiad ar yr ymweliad. Lle'r oedd angen, roedd swyddogion wedi gwneud cofnod o ganfyddiadau arolygiad yn eu llyfrau nodiadau hefyd.

7.28 Roedd yr wybodaeth a gasglwyd yn ystod arolygiadau yn ymwneud yn bennaf â chydymffurfio â gofynion labelu a chyfansoddol. Fodd bynnag, roedd gwybodaeth allweddol na chasglwyd yn ystod arolygiadau yn cynnwys maint a graddfa'r busnes, y math o weithgareddau a gynhaliwyd, asesiad o olrheiniadwyedd neu gydymffurfiaeth â manylebau cyflenwyr. Felly, nid oedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod asesiad cynhwysfawr o gydymffurfiaeth busnesau bwyd â gofynion cyfreithiol wedi'i gynnal ym mhob achos.

7.29 Mewn dau achos, roedd y sgoriau risg wedi cael eu gostwng yn dilyn arolygiad ac nid oedd gwybodaeth i gyfiawnhau'r diwygiad wedi'i chofnodi, yn groes i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

7.30 Roedd yr awdurdod wedi datblygu polisi ailymweld a oedd yn mynnu bod arweinwyr tîm yn cael eu hymgynghori mewn achosion lle yr amlygwyd 'lefel arwyddocaol o dramgwyddau'. Cynhaliwyd trafodaeth gyda swyddogion ynglŷn â manteision cynnwys meini prawf i'w hystyried er

mwyn pennu a oes angen camau dilynol a manylion y graddfeydd amser ar gyfer cynnal ailymweliadau.

7.31 Roedd dau achos lle y dylai ailymweliad neu ymyrraeth ddilynol yr un mor effeithiol fod wedi cael eu cynnal. Yn yr achos cyntaf, nid oedd hyn wedi digwydd ac amlygwyd y tramgwydd unwaith eto yn yr arolygiad dilynol, rhyw 14 mis yn ddiweddarach. Sylwodd yr archwilwyr fod y diffyg cydymffurfiaeth wedi'i ddatrys bellach. Yn yr ail achos, roedd yr un tramgwydd yn ymwneud â labelu wedi'i amlygu mewn dau arolygiad olynol dros gyfnod o ddwy flynedd, ond heb unrhyw gamau dilynol ers yr arolygiad diwethaf yn 2009.

7.32 Nid oedd yr awdurdod yn gweithredu Strategaeth Orfodi Amgen ar gyfer safonau bwyd.

***Argymhellion***

7.33 Dylai'r awdurdod:

(i) Sicrhau bod ymyriadau sefydliadau bwyd yn cael eu cynnal ar amlder nad yw'n llai na hwnnw a bennir o dan y cynllun sgorio ymyriadau a amlinellir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon –7.1]

(ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau safonau bwyd yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, Codau Ymarfer, a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Yn arbennig, sicrhau bod cynllun sgorio risg addas yn cael ei weithredu'n gywir. [Y Safon –7.2]

(iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau â safonau a bennwyd yn gyfreithiol, cofnodi arsylwadau a wnaed a/neu ddata a gafwyd yn ystod ymyriadau mewn modd amserol er mwyn atal gwybodaeth berthnasol rhag cael ei cholli a sicrhau bod cofnodion cyfoes swyddogion o ymyriadau'n cael eu storio mewn ffordd adferadwy. Yn arbennig, sicrhau bod asesiadau o olrheiniadwyedd, labelu a gofynion cyfansoddol yn cael eu cofnodi'n fanwl, a bod gwybodaeth am raddfa busnesau a'u gweithgareddau'n cael ei chofnodi. [Y Safon –7.3 a 7.5]

(iv) Adolygu ei weithdrefn arolygu er mwyn rhoi arweiniad i swyddogion ar y materion y dylent eu hystyried yn ystod arolygiadau safonau bwyd, a sicrhau bod y polisi ailymweld yn cynnwys y meini prawf i'w hystyried wrth bennu a ddylid cymryd camau dilynol ac amseriad ymweliad dilynol. [Y Safon – 7.4]

*Ymweliad Gwirio Safonau Bwyd*

7.34 Cynhaliwyd un ymweliad gwirio safonau bwyd gyda'r swyddog awdurdodedig a gynhaliodd yr arolygiad diwethaf. Roedd gan y swyddog ddealltwriaeth dda o'r busnes ac roedd yn gallu dangos ei fod wedi cynnal asesiad priodol o gydymffurfiaeth y busnes â gofynion safonau bwyd. Er nad oedd y ffurflen arolygu wedi'i llenwi'n drylwyr, roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod arolygiad cwmpas llawn wedi'i gynnal.

***Bwyd Anifeiliaid***

7.35 Roedd anghysondebau yn y data a ddarparwyd i'r Asiantaeth Safonau Bwyd o ran nifer y sefydliadau bwyd anifeiliaid yn ardal yr awdurdod a oedd wedi cael sgôr risg. Roedd yr wybodaeth a ddarparwyd yn union cyn yr archwiliad yn dangos bod 128 o sefydliadau bwyd anifeiliaid wedi cael sgôr risg.

7.36 Nodwyd yn y Cynllun Gwasanaeth y byddai 36 arolygiad risg uchel, 14 arolygiad risg ganolig a 18 arolygiad risg isel yn cael eu cynnal yn 2013/4. Ar adeg yr archwiliad, roedd yr ymyrraeth ar gyfer 34 sefydliad bwyd anifeiliaid rhwng saith ac 80 mis yn hwyr. Roedd yr ymyriadau hwyr yn ymwneud ag un sefydliad risg isel, saith sefydliad risg ganolig a 26 sefydliad risg uchel, sy'n awgrymu efallai nad yw'r awdurdod yn defnyddio ymagwedd seiliedig ar risg wrth gyflawni rheolaethau bwyd anifeiliaid swyddogol. Dywedodd yr awdurdod ei fod yn hyderus y byddai'r holl ymyriadau a ddylai gael eu cynnal yn cael eu cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn.

7.37 Nid oedd y cynllun sgorio risg a oedd yn cael ei ddefnyddio gan yr awdurdod yn cyd-fynd â'r cynllun sgorio risg yn Atodiad 5 y Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid. Dywedodd y rheolwr wrth yr archwilwyr fod gwaith i fabwysiadu cynllun sgorio risg mwy addas heb ei benderfynu hyd nes y gwneir penderfyniad ynghylch cydweithredu rhanbarthol wrth ddarparu Gwasanaethau Safonau Masnach.

7.38 Roedd yr awdurdod wedi mabwysiadu gweithdrefn ar gyfer arolygiadau bwyd anifeiliaid a oedd yn unol â'r Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid yn gyffredinol. Roedd y weithdrefn yn cynnwys datganiad a oedd yn nodi y dylai arolygiadau fod yn rhai dirybudd yn hytrach na rhai y rhoddir rhybudd ohonynt ac eithrio mewn "amgylchiadau priodol". Nid oedd y cyfryw amgylchiadau wedi'u diffinio, ond dywedwyd wrth yr archwilwyr y byddent yn cynnwys pob arolygiad fferm a phorthladd. Cynhaliwyd trafodaeth gyda rheolwyr ynglŷn â manteision cynnwys arweiniad ychwanegol yn y weithdrefn ar yr amgylchiadau pryd y dylid cynnal arolygiadau y rhoddir rhybudd ohonynt.

7.39 Roedd y weithdrefn ar gyfer cynnal gwaith bwyd anifeiliaid ar ffermydd yn cyfeirio at asesu risg ar y ffôn. Cadarnhawyd yn ystod yr archwiliad bod sgôr risg yn cael ei rhoi i rai sefydliadau heb iddynt dderbyn prif

arolygiad, yn groes i ofynion y Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid.

7.40 Archwiliwyd ffeiliau arolygu 10 sefydliad bwyd anifeiliaid. Roedd un arolygiad wedi'i gofnodi'n anghywir ar y gronfa ddata fel arolygiad bwyd anifeiliaid. Roedd tri o'r naw a oedd yn weddill yn ymwneud â mewnforwyr bwyd anifeiliaid nad oedd ganddynt sefydliadau yng Nghasnewydd. O ganlyniad, cynghorodd yr archwilwyr na ddylai'r rhain gael eu cynnwys ar gronfa ddata sefydliadau bwyd anifeiliaid yr awdurdod.

7.41 Yn gyffredinol, nid oedd arolygiadau bwyd anifeiliaid wedi'u cynnal ar yr amlder sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid. Roedd pedwar yn hwyr ers yr arolygiad diwethaf, a hynny o gyfnodau yn amrywio o bedwar i wyth mis.

7.42 Roedd yr wybodaeth mewn ffeiliau'n cael ei dal yn electronig ar y gronfa ddata. Yn gyffredinol, roedd y sgôr risg a roddwyd i sefydliadau yn gywir, ond, mewn dau achos, roedd y risg wedi'i hasesu'n rhy uchel ar gyfer y gweithgarwch bwyd anifeiliaid a oedd yn digwydd. Roedd sgoriau risg bwrdd gwaith wedi'u rhoi cyn y sgôr risg ddiweddaraf mewn pedwar achos.

7.43 O ran cofrestriad busnesau bwyd anifeiliaid, roedd yr wybodaeth hon ar gael ar y gronfa ddata yn yr unig achos lle'r oedd hyn yn angenrheidiol.

7.44 Roedd arolygiadau bwyd anifeiliaid wedi'u cynnal gan swyddog a chanddo gymwysterau ac awdurdodiad priodol mewn pum sefydliad. Roedd pob un o'r arolygiadau hyn yn rhai y rhoddwyd rhybudd ohonynt, yn groes i'r Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid a gweithdrefn yr awdurdod ei hun.

7.45 Roedd cofnodion arolygu ar gael ar gyfer pump o'r arolygiadau mwyaf diweddar, ond roedd un o'r rhain nad oedd wedi'i ddal ar y gronfa ddata sefydliadau bwyd anifeiliaid. Roedd ffurflen arolygu briodol wedi'i defnyddio ym mhob un o'r pum achos, ond gwybodaeth rannol yn unig a gofnodwyd mewn tri achos. Ym mhob un o'r pum achos, roedd gwybodaeth briodol ar gael ynglŷn â'r math o weithgarwch bwyd anifeiliaid a maint a graddfa'r busnes. Yn gyffredinol, roedd digon o wybodaeth ar gael i lywio asesiad effeithiol yn unol â safonau a bennwyd yn gyfreithiol. Fodd bynnag, mewn dau achos, nid oedd digon o wybodaeth wedi'i chofnodi mewn perthynas â chyfansoddiad, labelu a chyflwyniad bwyd anifeiliaid. O ran yr unig achos lle'r oedd HACCP yn berthnasol, nid oedd yr wybodaeth briodol wedi'i darparu gan y gweithredwr busnes bwyd anifeiliaid.

7.46 Mewn un achos, roedd camau ychwanegol i fynd i'r afael ag absenoldeb cynllun HACCP ar gyfer bwyd anifeiliaid yn briodol, ond nid oeddent wedi'u cymryd.

7.47 Nid oedd yr awdurdod yn gweithredu Strategaeth Orfodi Amgen ar gyfer bwyd anifeiliaid.

7.48 ***Argymhellion***

Dylai'r awdurdod:

(i) Sicrhau bod ymyriadau sefydliadau bwyd anifeiliaid yn cael eu cynnal ar yr amlder a bennir gan y Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid. [Y Safon –7.1]

(ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau mewn sefydliadau bwyd anifeiliaid yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, Codau Ymarfer, a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Sicrhau bod gweithdrefnau ymyrraeth bwyd anifeiliaid yn cael eu diwygio yn unol â hynny. [Y Safon –7.2]

(iii) Sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i ddilyn diffyg cydymffurfiaeth mewn sefydliadau bwyd anifeiliaid yn unol â'i Bolisi Gorfodi. [Y Safon –7.3]

(iv) Sicrhau bod arsylwadau a wneir yn ystod ymyriadau'n cael eu cofnodi mewn modd amserol a bod cofnodion cyfoes swyddogion o ymyriadau'n cael eu storio mewn ffordd adferadwy. [Y Safon – 7.5]

*Ymweliad Gwirio Bwyd Anifeiliaid*

7.49 Yn ystod yr archwiliad, cynhaliwyd ymweliad gwirio â busnes bwyd anifeiliaid gyda swyddog yr awdurdod a gynhaliodd yr arolygiad bwyd anifeiliaid diwethaf yn y sefydliad. Prif amcan yr ymweliad oedd asesu effeithiolrwydd asesiad yr awdurdod o gydymffurfiaeth y busnes bwyd anifeiliaid â gofynion cyfraith bwyd anifeiliaid.

7.50 Roedd y swyddog yn gallu dangos digon o wybodaeth am y sefydliad a'r gweithrediadau a gynhelid. Roedd nodiadau arolygu cyfoes yn adlewyrchu natur a chwmpas yr arolygiad. Roedd yr ymweliad ei hun yn cadarnhau'r canfyddiadau a nodwyd wrth wirio'r ffeil h.y. nad oedd angen unrhyw gamau ychwanegol. Fodd bynnag, nodwyd y dylai'r swyddog ystyried cadw cofnod yn y ffeil o ddogfennau allweddol a archwilir yn ystod yr arolygiad.

7.51 Roedd ail ymweliad gwirio â'r porthladd yn cadarnhau'r canfyddiadau a nodwyd wrth edrych ar y ffeil h.y. mai'r gweithgarwch a gynhaliwyd oedd

gwiriad llwythi cynhyrchion bwyd anifeiliaid wedi'u mewnforio yn hytrach nag arolygiad o sefydliad bwyd anifeiliaid. Roedd archwiliad bach wedi'i gynnal o'r sefydliad porthladd a ddefnyddiwyd i storio'r cynnyrch, ond nid oedd y cofnod ar y ffeil cronfa ddata'n adlewyrchu arolygiad trylwyr o'r sefydliad porthladd. Daeth yr archwilwyr i'r casgliad bod y gweithgarwch a gynhaliwyd wedi'i gofnodi'n anghywir fel arolygiad o sefydliad gan nad oedd sefydliad i'w arolygu yn ymwneud â'r mewnforiwr.

***Iechyd Porthladd***

7.52 Roedd yr awdurdod yn gyfrifol am reolaethau swyddogol bwyd anifeiliaid yn Nociau Casnewydd. Roedd y Dociau'n gweithredu fel porthladd gorlif, lle'r oedd llwythi bwyd anifeiliaid yn cael eu dadlwytho, eu harolygu a, lle y bo'n briodol, eu samplu'n rheolaidd gan y tîm Safonau Masnach.

7.53 Yn ogystal â rheolaethau bwyd anifeiliaid swyddogol, roedd swyddogion arbenigol yn y tîm Iechyd yr Amgylchedd yn gyfrifol am arolygu llongau sy'n docio yn y porthladd a rhoi tystysgrifau glanweithdra.

7.54 Roedd yr awdurdod wedi sefydlu 'gweithdrefn dargedu' gynhwysfawr, seiliedig ar risg ar gyfer arolygu llongau. Roedd yn defnyddio'r weithdrefn hon i roi arweiniad i'r awdurdod ar gyflawni ei ddyletswyddau o dan ddeddfwriaeth fwyd. Roedd yr awdurdod hefyd wedi sefydlu a gweithredu gweithdrefn ar gyfer rhoi tystysgrifau glanweithdra yn unol â Rheoliadau Iechyd Rhyngwladol 2005.

7.55 Gwiriwyd pum llong a chanfuwyd bod yr awdurdod yn cynnal ymyriadau yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, Codau Ymarfer, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a'i weithdrefn arolygu ym mhob achos.

7.56 Roedd yr awdurdod yn asesu cydymffurfiaeth llongau â'r safonau a bennwyd yn gyfreithiol drwy arolygiadau cwmpas llawn a rhannol fel y bo'n briodol, gan gyfeirio at ei weithdrefn ei hun a phresenoldeb neu absenoldeb tystysgrif lanweithdra ddilys.

7.57 Roedd camau priodol wedi'u cymryd lle yr amlygwyd diffyg cydymffurfiaeth, a dywedwyd wrth yr archwilwyr pe byddai diffyg cydymffurfiaeth difrifol yn codi y byddent yn cysylltu ag Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau neu'r porthladd galw nesaf, yn unol â'u gweithdrefn.

## 8 Cwynion am Fwyd, Bwyd Anifeiliaid a Sefydliadau Bwyd

8.1 Roedd gan yr awdurdod weithdrefnau/protocolau cofnodedig ar gyfer ymdrin â chwynion am safonau bwyd a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid.

8.2 Yr amser ymateb targed ar gyfer ymateb i gwynion safonau masnach oedd un diwrnod gwaith, yn ôl yr hyn a nodwyd yn y weithdrefn. Yr amser ymateb ar gyfer cwynion hylendid bwyd oedd tri diwrnod gwaith, gydag amod bod materion mwy brys yn derbyn sylw'n gynt na hynny. Nid oedd yr amgylchiadau na'r raddfa amser ar gyfer materion mwy brys wedi'u datgan. O wirio ffeiliau, gwelwyd yn ymarferol bod materion yr oedd angen ymateb iddynt ar frys wedi'u blaenoriaethu.

8.3 Gofynnwyd am gofnodion 10 cwyn hylendid bwyd, 10 cwyn safonau bwyd a 10 cwyn bwyd anifeiliaid i'w harchwilio.

### *Hylendid Bwyd*

8.4 Roedd cofnodion cwynion yn cael eu cynnal ar y gronfa ddata sefydliadau bwyd ac mewn ffeiliau sefydliadau ym mhob achos. Roedd gwybodaeth am gwynion yn gynhwysfawr yn gyffredinol yn unol â'r Cod Ymarfer a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog.

8.5 Roedd ymchwiliad wedi'i gynnal i bob cwyn a, lle y bo'n briodol, roedd cysylltiad wedi'i wneud â'r rhanddeiliaid perthnasol. Mewn un achos, diweddarwyd y cofnod ymchwiliad yn ystod yr archwiliad i adlewyrchu'r ffaith bod ymchwiliadau wedi'u cynnal ond heb eu cofnodi ar y ffeil yn flaenorol. Mewn achos arall, bu oedi cyn ymateb i'r gŵyn. Dechreuodd yr ymchwiliad tua 16 diwrnod ar ôl derbyn y gŵyn.

8.6 Roedd camau ychwanegol wedi'u cymryd fel y bo'n briodol ym mhob achos.

### *Safonau Bwyd*

8.7 Roedd cofnodion cwynion wedi'u cynnal ar y gronfa ddata sefydliadau bwyd. Roedd gwybodaeth am gwynion yn gynhwysfawr yn unol â'r Cod Ymarfer a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog.

8.8 Roedd saith o'r cwynion wedi bod yn destun ymchwiliad priodol. Mewn dau achos, nid oedd ymchwiliad o bwys wedi'i gynnal ac yn yr achos a oedd yn weddill, roedd yr ymchwiliad yn parhau. Ym mhob achos namyn un, roedd yr ymchwiliadau wedi dechrau o fewn yr amser ymateb gofynnol. Yn yr achos hwnnw, bu oedi o 1½ wythnos ar ôl derbyn y gŵyn cyn i'r ymchwiliad ddechrau.

8.9 Roedd camau ychwanegol wedi'u cymryd fel y bo'n briodol ym mhob achos namyn un lle y cynghorwyd masnachwr i fynd i'r afael â

thramgwyddau labelu na ddilynwyd yn ysgrifenedig, yn groes i Bolisi Gorfodi'r awdurdod.

8.10 Ym mhob achos, roedd y partïon priodol wedi cael gwybod am ganlyniad ymchwiliadau ac roedd yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi'i hysbysu pan oedd hynny'n ofynnol.

***Bwyd Anifeiliaid***

8.11 Roedd cofnodion cwynion wedi'u cynnal ar y gronfa ddata sefydliadau bwyd anifeiliaid. Roedd un o'r ffeiliau a ddewiswyd i'w harchwilio wedi'i chofnodi'n anghywir fel cwyn, ond nid oedd yn ymwneud â mater yr oedd angen ymchwilio iddo. O ran y naw a oedd yn weddill, roedd yr wybodaeth am gwynion yn gynhwysfawr yn unol â'r Cod Ymarfer a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog.

8.12 Roedd ymchwiliad wedi'i gynnal i bob cwyn ac roedd cysylltiad wedi'i wneud â'r rhanddeiliaid perthnasol. Fodd bynnag, nid ymatebwyd i dri achos o fewn amser ymateb targed yr awdurdod. Trafododd yr archwilwyr yr achosion hyn gyda'r swyddog bwyd anifeiliaid arweiniol, a chytunwyd y rhoddid ystyriaeth i ddulliau eraill o gofnodi rhybuddion cynnar o lwythi bwydydd a fewnforir yn y dyfodol, gan nad cwynion oedd y rhain ac nid oeddent yn mynnu ymateb o fewn un diwrnod fel arfer.

8.13 Roedd camau ychwanegol wedi'u cymryd fel y bo'n briodol ym mhob achos.

***Argymhellion***

8.14 Dylai'r awdurdod:

(i) Egluro'r hyn sy'n 'fater mwy brys' sy'n mynnu ymateb mwy amserol yn ei weithdrefn gwyno ynghylch hylendid bwyd. [Y Safon – 8.1]

(ii) Adolygu a diwygio'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion bwyd anifeiliaid o ran hysbysiadau cynnar o lwythi bwyd anifeiliaid. [Y Safon – 8.1]

(iii) Ymchwilio i gwynion hylendid bwyd a safonau bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a'i bolisi a'i weithdrefnau ei hun. Yn arbennig, sicrhau yr ymchwilir i bob achos o fewn y graddfeydd amser gofynnol. [Y Safon – 8.2]

(iv) Cymryd camau priodol ynglŷn â chwynion safonau bwyd yn unol â'i Bolisi Gorfodi. [Y Safon – 8.3]

## 9 Cynllun y Prif Awdurdod ac Egwyddor yr Awdurdod Cartref

9.1 Roedd ymrwymiad yr awdurdod i Gynllun y Prif Awdurdod ac Egwyddor yr Awdurdod Cartref wedi'i amlinellu yn y Cynllun Uned Busnes Diogelwch Bwyd a Chlefydau Trosglwyddadwy a'r Cynllun Darparu Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid.

9.2 Roedd Polisi Gorfodi'r awdurdod a'i weithdrefnau gwaith perthnasol yn ystyried materion yn ymwneud â Phrif Awdurdod ac Awdurdod Cartref. Roedd swyddogion allweddol wedi dilyn hyfforddiant ar gynllun y Prif Awdurdod ac roedd tystiolaeth fod yr holl wybodaeth hon wedi'i rhaeadru'n effeithiol i'w swyddogion. Roedd pob swyddog a oedd yn sicrhau rheolaethau swyddogol bwyd a bwyd anifeiliaid wedi cael cyfrineiriau i fynd at wefan y Prif Awdurdod.

9.3 Nid oedd gan yr awdurdod unrhyw bartneriaethau Prif Awdurdod â busnesau. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth fod swyddogion yn ystyried canllawiau Prif Awdurdod wrth ymdrin â busnesau perthnasol.

9.4 Er nad oedd unrhyw Gytundebau Awdurdod Cartref ffurfiol ar waith, dywedwyd wrth yr archwilwyr bod yr awdurdod yn gweithredu'n unol ag egwyddorion Awdurdod Cartref, gan roi cyngor i 13 busnes bwyd a oedd wedi'u lleoli yn yr ardal. Roedd cyngor cywir ac amserol wedi'i roi i'r busnesau hyn ac awdurdodau lleol eraill ar gais.

## 10 Cyngor i Fusnesau

10.1 Roedd yr awdurdod wedi bod yn rhagweithiol wrth roi cyngor ar hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid i fusnesau. Roedd tystiolaeth fod cyngor wedi'i roi i fusnesau yn ystod arolygiadau yn ogystal ag ar gais.

10.2 Roedd yr awdurdod wedi elwa ar gyllid grant yr Asiantaeth Safonau Bwyd i gynorthwyo busnesau i ddatblygu eu systemau rheoli diogelwch bwyd. Yn ogystal, roedd busnesau bwyd a gyflawnodd sgôr hylendid bwyd o lai na 3 wedi'u gwahodd i ddilyn cwrs hyfforddi gyda'r nod o wella eu sgoriau cyn y gofyniad gorfodol i arddangos sgoriau hylendid bwyd.

10.3 Roedd yr awdurdod wedi targedu cigyddion gydag ymgyrch bostio ynglŷn â rheoli croeshalogi a oedd yn cynnwys copi o DVD yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

10.4 Roedd yr awdurdod yn rhoi cyngor i ddarpar arlwywyr digwyddiadau ac wedi datblygu holiadur hylendid bwyd i'w cynorthwyo i fodloni gofynion hylendid bwyd yn ystod digwyddiadau.

10.5 Roedd cyngor technegol wedi'i roi i fusnesau yr oedd yn gweithredu fel Awdurdod Cartref ar eu cyfer.

10.6 Er mwyn cynorthwyo busnesau bwyd i gydymffurfio â chyfraith safonau bwyd, roedd busnesau perthnasol wedi'u targedu gydag ymgyrchoedd postio, gan gynnwys un yn ymwneud â maeth a honiadau iechyd a wneir ar fwydydd.

10.7 Roedd dolenni i wefannau'r Sefydliad Safonau Masnach a'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi'u darparu ar wefan yr awdurdod a oedd yn rhoi ystod gynhwysfawr o wybodaeth am safonau bwyd a bwyd anifeiliaid i fusnesau bwyd a bwyd anifeiliaid.

## 11 Cronfa Ddata Sefydliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

11.1 Roedd yr awdurdod wedi datblygu cyfarwyddiadau gwaith i sicrhau bod ei gronfeydd data sefydliadau bwyd a bwyd anifeiliaid yn gyfredol ac yn gywir.

11.2 Roedd y cyfarwyddyd gwaith ‘Gwirio Busnesau ar Gronfeydd Data’ yn cynnwys manylion y dulliau a fyddai’n cael eu defnyddio ynghyd â chymariaethau misol o’r cronfeydd data â chyfeiriaduron busnes ar-lein a gwefannau masnachu. Roedd cronfa ddata ardrethi busnes yr awdurdod yn cael ei gwirio’n fisol hefyd i amlygu busnesau newydd.

11.3 Roedd y cyfarwyddyd gwaith ‘Diweddaru Cronfeydd Data yn Dilyn Newidiadau i Wybodaeth am Fusnes’ yn rhoi arweiniad i swyddogion ar achosion pan fyddant yn dod ar draws hen wybodaeth ar y cronfeydd data. Roedd y gallu i greu cofnodion newydd a dileu hen gofnodion wedi’i gyfyngu i weinyddwyr y system.

11.4 Dewiswyd deg busnes bwyd ar hap o’r rhyngrwyd a oedd wedi’u lleoli yn ardal yr awdurdod. Canfuwyd bod pob un ohonynt wedi’u cofnodi ar y gronfa ddata sefydliadau bwyd a’u bod wedi’u cynnwys yn rhaglenni ymyriadau hylendid bwyd a safonau bwyd cynlluniedig yr awdurdod. Roedd manylion cofrestru ar gael ar gyfer y busnesau hyn hefyd.

11.5 Roedd yr awdurdod wedi bod yn rhagweithiol a, chyda chymorth cyllid gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, roedd wedi ymgymryd â rôl arweiniol wrth ddatblygu cronfa ddata sefydliadau bwyd anifeiliaid ar draws awdurdodau lleol yng Ngwent. Er bod yr archwilwyr yn cydnabod y gwaith diweddar a wnaed i wella cronfa ddata sefydliadau bwyd anifeiliaid yr awdurdod, roedd anghysondebau o ran nifer y sefydliadau bwyd anifeiliaid a adroddwyd i’r Asiantaeth Safonau Bwyd ac yn nogfennau cynllunio gwasanaeth yr awdurdod yn dangos bod angen rhagor o waith i sicrhau cywirdeb y data.

11.6 Roedd yn amlwg yn ystod yr archwiliad fod gan yr awdurdod systemau ar waith i reoli’r wybodaeth a gofnodir ar y cronfeydd data e.e. mynediad cyfyngedig ar gyfer cofnodi a dileu gwybodaeth, a staff cofnodi data hyfforddedig, penodol.

11.7 Roedd swyddogion arweiniol a staff cymorth gweinyddol yn allweddol i sicrhau cywirdeb y cronfeydd data sefydliadau bwyd a bwyd anifeiliaid, gan gynnal gwiriadau dilysu data rheolaidd.

***Argymhelliad***

11.8 Dylai’r awdurdod:

| | |
|---|---|
| (i) | Gynnal adolygiad o’r gronfa ddata bwyd anifeiliaid er mwyn sicrhau ei chywirdeb. [Y Safon – 11.1] |

## 12 Arolygu a Samplu Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

12.1 Roedd yr awdurdod wedi penodi Dadansoddwyr Cyhoeddus i ddadansoddi samplau bwyd a bwyd anifeiliaid ac roedd wedi cyflwyno samplau i labordai a chanddynt achrediad priodol. Roedd y labordai ar y rhestr Labordai Swyddogol yr oedd Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi'i chyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd.

12.2 Roedd gan yr awdurdod bolisïau a rhaglenni samplu seiliedig ar risg ar gyfer hylendid, safonau a bwyd. Roedd y polisi samplu bwyd yn cynnwys ystyriaeth o flaenoriaethau samplu cenedlaethol a chydweithredu rhanbarthol wrth gynllunio rhaglenni samplu.

12.3 Roedd rhaglenni samplu ar gyfer samplau hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael eu gweithredu.

12.4 Roedd yr awdurdod wedi datblygu gweithdrefnau samplu bwyd boddhaol ar gyfer ymyriadau hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. Fodd bynnag, byddent oll yn elwa ar gynnwys cyfeiriad at adrodd am ddigwyddiadau ac atafaelu / dal gafael ar gynnyrch.

12.5 Roedd yr awdurdod wedi gwneud cais llwyddiannus am grantiau gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd i ariannu prosiectau samplu safonau bwyd (drwy'r grŵp cyswllt samplu lleol) a bwyd anifeiliaid.

12.6 Gwiriwyd cofnodion yn ymwneud â 10 sampl hylendid bwyd, 10 sampl safonau bwyd a 10 sampl bwyd anifeiliaid yn ystod yr archwiliad.

12.7 Ym mhob achos, roedd y samplau wedi'u casglu'n gan swyddogion a chanddynt awdurdodiad priodol, roedd y samplu wedi'i gynnal yn unol â pholisïau, gweithdrefnau a rhaglenni samplu'r awdurdod, ac roedd canlyniadau'r samplu ar gael.

12.8 Roedd yr awdurdod wedi cymryd camau dilynol priodol ar ôl derbyn canlyniadau sampl ym mhob achos namyn un. Yn yr achos hwn, nid oedd cofnodion o gamau dilynol mewn ymateb i sampl safonau bwyd wedi'u cynnal. Ym mhob achos perthnasol, roedd y busnesau bwyd wedi cael gwybod am ganlyniadau anfoddhaol.

12.9 Lle y bo'n briodol, roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau y cysylltwyd ag awdurdodau cartref / prif awdurdodau / awdurdodau gwreiddiol.

12.10 Yn ystod yr archwiliad, gwiriwyd 10 sampl a anfonwyd i'w dadansoddi.

12.11 Ym mhob achos, roedd y samplau wedi'u casglu gan swyddogion a chanddynt awdurdodiad priodol ac roedd canlyniadau'r samplu ar gael.

12.12 Ym mhob achos, roedd y samplu wedi’i gynnal yn unol â’r polisi, gweithdrefn a rhaglen samplu.

12.13 Roedd busnesau bwyd wedi cael gwybod am ganlyniadau anfoddhaol mewn achosion perthnasol ac, yn gyffredinol, roedd camau dilynol priodol wedi’u cymryd gan yr awdurdod.

## 13 Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Gysylltiedig â Bwyd

13.1 Roedd yr awdurdod wedi enwi swyddog arweiniol ar gyfer clefydau trosglwyddadwy a oedd wedi mynychu digwyddiadau yn rhan o raglen Hyfforddi Swyddogion Arweiniol Cymru.

13.2 Roedd gan yr awdurdod Gynllun Rheoli Achosion a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid perthnasol. Roedd y cynllun wedi'i seilio ar dempled a gynhyrchwyd gan grŵp amlasiantaethol, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru. Sylwodd yr archwilwyr fod y manylion cyswllt ar gyfer awdurdodau lleol cyfagos ac asiantaethau eraill sy'n cyflawni rôl wrth reoli achosion wedi'u diweddaru'n ddiweddar.

13.3 Roedd yr awdurdod hefyd wedi cynhyrchu gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i gwynion honedig am wenwyn bwyd a hysbysiadau o glefydau heintus, a ategwyd gan ystod o holiaduron a thaflenni cyngor. Roedd y gweithdrefnau hyn yn cyfeirio at ymchwilio i fwydydd amheus a sefydliadau bwyd cysylltiedig.

13.4 Cadarnhaodd y Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd fod trefniadau ewyllys da wedi'u sefydlu i ymateb i hysbysiadau y tu allan i oriau swyddfa. Er nad oedd y gweithdrefnau'n darparu gwybodaeth am dderbyn hysbysiadau y tu allan i oriau swyddfa, roedd tystiolaeth ar gael i ddangos bod yr awdurdod wedi ymateb yn effeithiol i hysbysiad ynghylch achosion a amheuir a adroddwyd i'r awdurdod ar benwythnos drwy ei ganolfan gyswllt.

13.5 Archwiliwyd cofnodion yn ymwneud ag ymchwiliad i achosion a oedd yn gysylltiedig â busnes bwyd cofrestredig yn ardal yr awdurdod. Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod yr awdurdod wedi cynnal ymchwiliad cynhwysfawr ac wedi ymweld â'r sefydliad cysylltiedig. Yn ogystal, roedd tystiolaeth ar gael o gyfathrebu â'r asiantaethau priodol.

13.6 Archwiliwyd hysbysiadau ynghylch naw achos achlysurol o glefydau heintus cysylltiedig â bwyd a gadarnhawyd gan labordy. Mewn wyth o'r achosion hyn, roedd y cofnodion yn ddigonol i gadarnhau cwmpas yr ymchwiliadau a gynhaliwyd. Yn yr achos a oedd yn weddill a oedd yn ymwneud â hysbysu ynghylch organeb risg uchel, nid oedd yr awdurdod yn gallu adalw cofnodion i ddangos tystiolaeth fod cysylltiad wedi'i wneud â'r achos. Fodd bynnag, roedd yr awdurdod yn gallu dangos y cyfathrebwyd â'r gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a fu'n gysylltiedig â'r achos.

13.7 Sylwodd yr archwilwyr, ym mhob achos namyn un, fod y cofnodion yn cadarnhau bod ymchwiliadau trylwyr wedi'u cynnal gan swyddogion cymwys a bod camau priodol wedi'u cymryd. Er hynny, bu oedi o un

diwrnod cyn cysylltu yn un o’r achosion o gymharu ag ymateb targed yr awdurdod o ddau ddiwrnod.

***Argymhelliad***

13.8 Dylai’r awdurdod:

(i) Sicrhau bod yr holl gofnodion sy’n ymwneud â rheoli ac ymchwilio i glefydau heintus sy’n gysylltiedig â bwyd yn cael eu cadw am 6 blynedd o leiaf. [Y Safon – 13.3]

## 14 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

14.1 Roedd gan yr awdurdod Weithdrefn Digwyddiadau a Rhybuddion Bwyd Iechyd yr Amgylchedd gynhwysfawr a Chyfarwyddyd Gwaith Safonau Masnach ar gyfer ymdrin â Rhybuddion Bwyd a Bwyd Anifeiliaid gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. O'u hystyried gyda'i gilydd, roedd y trefniadau a oedd ar waith wedi'u datblygu yn unol â'r Codau Ymarfer Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid ac yn cynnwys trefniadau ar gyfer ymdrin â digwyddiadau y tu allan i oriau swyddfa.

14.2 Roedd y Weithdrefn Digwyddiadau a Rhybuddion Bwyd yn cynnwys arweiniad i swyddogion ar ymateb i rybuddion bwyd a roddir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, digwyddiadau/peryglon bwyd a amlygir gan yr awdurdod a hysbysu'r Asiantaeth Safonau Bwyd pan fydd problem yn genedlaethol/rhanbarthol neu'n lleol a difrifol. Darparwyd gwybodaeth am y System Rhybuddio Cyflym ar gyfer Bwyd a Bwyd Anifeiliaid hefyd.

14.3 Y Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (Diogelwch Bwyd) a'r Rheolwr Safonau Masnach oedd yn gyfrifol am sicrhau bod y gweithdrefnau'n cael eu rhoi ar waith yn effeithiol. Y Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd ac Arweinwyr Tîm Safonau Masnach oedd y dirprwyon enwebedig.

14.4 Gwiriodd yr archwilwyr gofnodion yn ymwneud â phum Rhybudd Bwyd – Angen Gweithredu a roddwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol. Derbyniwyd pob un ohonynt gan y Tîm Diogelwch Bwyd ac ymatebwyd iddynt yn unol â chyngor yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau y bu cysylltiad effeithiol â chydweithwyr Safonau Masnach mewn achosion perthnasol.

14.5 Roedd manylion y camau a gymerwyd gan yr awdurdod wedi'u nodi ar gronfa ddata'r awdurdod, copi caled o'r rhybudd bwyd neu nodyn a oedd wedi'i hatodi wrtho. Roedd yr holl ohebiaeth, gan gynnwys negeseuon e-bost gan swyddogion yn ymwneud â rhybuddion bwyd, wedi'u cadw mewn ffeil a gellid ei hadalw'n rhwydd.

14.6 Cyn yr archwiliad ar y safle, roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi'i hysbysu ynghylch digwyddiadau lleol difrifol a phroblemau diogelwch bwyd ehangach yn unol â'r Cod Ymarfer perthnasol.

## 15 Gorfodi

15.1 Roedd yr awdurdod wedi datblygu Polisi Gorfodi – Diogelu'r Cyhoedd a gymeradwywyd gan yr Aelod Cabinet perthnasol ym mis Rhagfyr 2013. Roedd y Polisi'n amlinellu ymagwedd "ddwysach" yr awdurdod tuag at sicrhau trefniadau gorfodi teg, ymarferol a chyson a weithredir mewn modd tryloyw. Rhoddwyd ystyriaeth i ofynion deddfwriaethol cyfredol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog wrth ddatblygu'r polisi. Roedd y Polisi Gorfodi ar gael i fusnesau a defnyddwyr ar wefan yr awdurdod.

15.2 Cynhaliwyd trafodaeth gyda swyddogion ynglŷn â manteision cynnwys yr ymagwedd tuag at fynd i'r afael â thramgwyddau mewn sefydliadau bwyd y mae'r awdurdod yn weithredwr busnes bwyd ar eu cyfer mewn adolygiadau o'r polisi yn y dyfodol.

15.3 Roedd ystod o weithdrefnau gwaith ar gael i gynorthwyo swyddogion i gymryd camau gorfodi ffurfiol i fynd i'r afael â thramgwyddau cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid. Roedd y rhain wedi'u datblygu yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog.

15.4 Nid oedd gweithdrefnau ar gael i ddirymu / tynnu'n ôl cofrestriad sefydliad bwyd anifeiliaid nac i ddal gafael ar fwyd anifeiliaid a fewnforiwyd sy'n dod i mewn i'r porthladd, ei ddinistrio, ei drin yn arbennig a'i ailddosbarthu.

15.5 Yn ei ffurflen fonitro ar gyfer 2012/13 i'r Asiantaeth Safonau Bwyd, adroddodd yr awdurdod ei fod wedi cymryd camau gorfodi ffurfiol i fynd i'r afael â thramgwyddau hylendid bwyd a safonau bwyd. Nid oedd unrhyw gamau ffurfiol wedi'u cymryd mewn perthynas â bwyd anifeiliaid a dywedodd yr awdurdod wrth yr archwilwyr na fu angen cymryd unrhyw gamau o'r fath.

15.6 Archwiliwyd cofnodion 10 Hysbysiad Gwella Hylendid, pedwar Hysbysiad Camau Unioni, saith achos o Gau'n Wirfoddol, chwe Rhybudd Syml ac wyth Erlyniad.

15.7 Lle y rhoddwyd Hysbysiadau Gwella Hylendid, dyna oedd y ffordd briodol o weithredu ym mhob achos. Roedd hysbysiadau wedi'u llunio'n briodol a'u rhoi gan swyddogion a fu'n dyst i'r tramgwyddau, roedd graddfeydd amser priodol wedi'u nodi ar gyfer gwaith unioni ac, ym mhob achos namyn un, roedd cydymffurfiaeth wedi'i chadarnhau'n ysgrifenedig wrth weithredwyr busnes bwyd.

15.8 Sylwodd yr archwilwyr, yn gyffredinol, fod hysbysiadau wedi'u rhoi i'r gweithredwyr busnes bwyd. Mewn un achos, nid oedd y ffurflen cofrestru busnes bwyd ar gael i gadarnhau hyn, ac mewn dau achos arall roedd yr hysbysiadau wedi'u rhoi'n gywir i unigolion gwahanol i'r rhai hynny a enwyd ar y ffurflenni cofrestru gan fod y rheiny'n hen.

15.9 Nid oedd prawf o roi'r hysbysiadau ar gael yn gyffredinol, er bod cofnodion dau o'r sefydliadau ar y gronfa ddata'n dangos y cawsant eu rhoi'n gywir drwy law neu drwy'r post. Nid oedd chwech o'r hysbysiadau a gedwid yn y ffeiliau yn gopïau o'r hysbysiad gwreiddiol llofnodedig.

15.10 Nid oedd archwiliadau amserol o gydymffurfiaeth wedi'u cynnal ar gyfer dau o'r hysbysiadau lle'r oedd hyn yn berthnasol. Mewn un achos, cafodd hysbysiad ei ymestyn drwy ganiatáu cais am estyniad yn anffurfiol, yn groes i ofynion canllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Mewn achos arall, nid oedd cydymffurfiaeth â'r hysbysiad wedi'i gwirio am ddeufis ers iddo ddod i ben. Gwaethygwyd hyn gan hanes o ddiffyg cydymffurfio yn y sefydliad lle'r oedd yr un tramgwydd wedi'i amlygu yn ystod tri chylch arolygu blaenorol. Roedd ailymweliadau wedi'u cynnal a Hysbysiad Gwella Hylendid wedi'i roi'n flaenorol. Cynhaliwyd trafodaeth gyda swyddogion ynglŷn ag ystyried camau gorfodi ffurfiol cynharach ac, oherwydd natur barhaus y tramgwydd, dwysáu camau gorfodi. Yn ddiweddarach, rhoddodd yr awdurdod wybod i'r archwilwyr fod cydymffurfiaeth wedi'i chyflawni yn y ddau achos yn y pen draw.

15.11 Roedd camau dilynol priodol wedi'u cymryd ym mhob achos perthnasol yn unol â Pholisi Gorfodi'r awdurdod.

15.12 Dewiswyd pedwar Hysbysiad Camau Unioni i'w harchwilio. Ym mhob achos, dyna oedd y ffordd briodol o weithredu ac roedd hysbysiadau wedi'u rhoi'n briodol gan swyddogion awdurdodedig a fu'n dyst i'r tramgwyddau. Roedd hysbysiadau wedi'u llunio'n gywir ac roedd copïau llofnodedig wedi'u cadw yn ffeiliau'r sefydliadau bwyd.

15.13 Roedd gwiriadau priodol wedi'u cynnal i sicrhau y cydymffurfiwyd â'r hysbysiadau a, lle y bo'n briodol, hysbyswyd gweithredwyr busnes bwyd yn ysgrifenedig bod yr hysbysiadau'n cael eu tynnu'n ôl.

15.14 Roedd gweithdrefnau wedi'u datblygu ar gyfer rhoi Hysbysiadau Gwahardd Brys Hylendid a Hysbysiadau Gwahardd Brys Busnes Bwyd Anifeiliaid a oedd yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Roedd y gweithdrefnau hyn hefyd yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer Cau'n Wirfoddol gan weithredwyr busnes bwyd/bwyd anifeiliaid.

15.15 Archwiliwyd cofnodion saith achos lle'r oedd sefydliadau bwyd wedi cytuno i gau'n wirfoddol. Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau mai dyna fu'r ffordd briodol o weithredu ym mhob achos. Roedd tystiolaeth fod y cam cau'n wirfoddol wedi'i gadarnhau'n ysgrifenedig mewn dau achos, a'u bod i gyd wedi cael eu monitro ar ôl cau i gadarnhau nad oeddent yn masnachu.

15:16 Roedd angen cymryd camau dilynol mewn un achos yn unig lle’r oedd y gweithredwr busnes bwyd wedi diystyru’r broses cau’n wirfoddol droeon. Nid oedd camau gorfodi dwysach wedi’u cymryd ac nid oedd cofnod o wyro o bolisi gorfodi’r awdurdod. Rhoddodd yr awdurdod wybod i’r archwilwyr fod y busnes wedi cael ei erlyn yn ddiweddarach am dramgwyddau hylendid bwyd.

15.17 Cynhaliodd yr archwilwyr drafodaeth gyda swyddogion ynglŷn â manteision ymestyn cwmpas y weithdrefn Rhybuddion Syml a ddatblygwyd ar gyfer tramgwyddau hylendid bwyd i safonau bwyd a bwyd anifeiliaid.

15.18 Archwiliwyd cofnodion un Rhybudd Syml hylendid bwyd a phum Rhybudd Syml safonau bwyd.

15.19 Rhybuddion Syml oedd y ffordd briodol o weithredu ym mhob achos ac fe’u rhoddwyd heb oedi diangen.

15.20 Ym mhob achos namyn dau, roedd adroddiadau trosedd wedi’u paratoi cyn i’r Rhybuddion Syml gael eu rhoi. Roedd yr archwilwyr yn fodlon ar yr esboniad a roddwyd gan yr awdurdod yn un o’r achosion hyn.

15.21 Roedd gan y Rheolwr Diogelu’r Cyhoedd (hylendid bwyd) a’r Rheolwr Safonau Masnach (safonau bwyd) awdurdod dirprwyedig i argymell achosion i’w herlyn gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol.

15.22 Roedd yr awdurdod wedi ystyried chwe achos hylendid bwyd a dau achos safonau bwyd i’w herlyn yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad. Roedd yr erlyniadau wedi bod yn briodol ym mhob achos ac roedd camau wedi’u cymryd yn unol â pholisi gorfodi’r awdurdod. Ym mhob achos, cynhaliwyd yr erlyniad heb oedi diangen.

***Argymhellion***

15.23 Dylai’r awdurdod:

(i) Sefydlu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer dirymu / tynnu’n ôl cofrestriad sefydliad bwyd anifeiliaid ac ar gyfer dal gafael ar fwyd anifeiliaid a fewnforiwyd, ei ddinistrio, ei drin yn arbennig a’i ailddosbarthu yn unol â’r Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid a chanllawiau swyddogol. [Y Safon –15.2 ]

(ii) Sicrhau bod camau gorfodi cyfraith hylendid bwyd yn cael eu cynnal yn unol â’r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod ei hun. [Y Safon –15.2 a 15.3]

(iii) Sicrhau bod yr holl benderfyniadau ar gamau gorfodi’n cael eu gwneud

yn dilyn ystyriaeth o bolisi gorfodi'r awdurdod a bod y rhesymau dros wyro o'r meini prawf a amlinellir yn y polisi'n cael eu cofnodi. [Y Safon –15.4]

## 16 Cofnodion ac Ymyriadau/Adroddiadau Arolygu

### *Hylendid Bwyd*

16.1 Roedd yr awdurdod yn cadw cofnodion busnes bwyd, gan gynnwys dogfennau cofrestru a chymeradwyo, ffurflenni arolygu/cymorth cof a gohebiaeth, ar ffurf copi caled mewn ffeiliau sefydliad. Roedd manylion dyddiad yr ymyrraeth a'r math o ymyrraeth a oedd yn gysylltiedig â busnesau bwyd, yn ogystal â phroffil risg y sefydliad a llythyrau adroddiad arolygu, yn cael eu cadw ar gronfa ddata electronig yr awdurdod hefyd. Sylwodd yr archwilwyr fod yr holl ffeiliau sefydliad a archwiliwyd yn drefnus, gyda chofnodion yn cael eu cadw mewn trefn gronolegol. Lle y bo'n berthnasol, roedd modd adalw gwybodaeth yn ymwneud â'r tri arolygiad diwethaf ac roedd cofnodion yn cael eu cadw am chwe blynedd.

16.2 Roedd llythyrau adroddiad arolygu wedi'u defnyddio i gyfleu canfyddiadau arolygiad i fusnesau bwyd, a oedd yn gwahaniaethu'n eglur rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion arfer da. Hefyd, roedd y llythyrau hyn yn cynnwys manylion y camau unioni a'r graddfeydd amser a oedd yn ofynnol ar gyfer cydymffurfio, ynghyd ag amlinellu unrhyw gamau dilynol ychwanegol a fwriadwyd gan yr awdurdod.

16.3 Yn gyffredinol, roedd y cofnodion ar y ffeiliau sefydliad a'r gronfa ddata electronig yn gywir. Roedd ffurflenni cofrestru ar gael mewn saith o'r 10 achos a archwiliwyd. Yn yr achosion lle nad oedd ffurflenni cofrestru ar gael, dywedodd y Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (Diogelwch Bwyd) wrth yr archwilwyr fod y busnesau hyn wedi cofrestru gyda'r awdurdod cyn 2002, pryd yr oedd ffurflenni cofrestru'n cael eu cadw'n ganolog mewn ffeil copi caled. Fodd bynnag, collwyd y ffeil wrth symud swyddfa.

16.4 Roedd ffurflenni adroddiad ôl-arolygiad a llythyrau arolygiad yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth y mae'n ofynnol ei rhoi i weithredwyr busnes bwyd o dan Atodiad 6 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Fodd bynnag, nid oedd amser yr arolygiad a'r gyfraith bwyd benodol y cynhaliwyd yr arolygiad oddi tani wedi'u cynnwys yn gyson.

16.5 Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau ym mhob achos a archwiliwyd bod llythyrau wedi'u hanfon at fusnesau o fewn 14 diwrnod o arolygiad, fel sy'n ofynnol gan weithdrefnau'r awdurdod.

16.6 Roedd yr wybodaeth a ddelid gan yr awdurdod am sefydliadau cymeradwy yn fwy amrywiol. Roedd ffurflenni cais, gwaith papur arolygiad cyn cymeradwyo, canlyniadau samplu, gwybodaeth reoli diogelwch bwyd, gohebiaeth â gweithredwyr busnes bwyd a hysbysiadau yn bresennol ar y cyfan. Roedd cynlluniau gosodiad ar gael ym mhob achos namyn tri, ond sylwodd yr archwilwyr mai un ffeil

sefydliad cymeradwy yn unig oedd yn cynnwys yr ystod o gynlluniau sy'n ofynnol i gydymffurfio â chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog.

16.7 Roedd yr wybodaeth a oedd ar goll yn aml o ffeiliau sefydliadau cymeradwy yn cynnwys crynodebau, cysylltiadau allweddol, cynlluniau tynnu cynnyrch yn ôl, labeli cynnyrch, adroddiadau arolygu, cofnodion hyfforddiant, rhestrau cynhyrchion a chyflenwyr.

***Safonau Bwyd***

16.8 O wirio'r ffeiliau sefydliadau bwyd yn ystod yr archwiliad, cadarnhawyd bod adroddiadau ymyrraeth wedi'u gadael gyda busnesau yn dilyn yr arolygiad diweddaraf mewn chwech o saith achos. Roedd yr adroddiadau hyn yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan Atodiad 6 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Fodd bynnag, nid oedd yr adroddiadau'n gwahaniaethu'n eglur bob amser rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion, nac yn nodi'r graddfeydd amser ar gyfer cydymffurfio. Nid oedd manylion uwch swyddog wedi'u cynnwys ychwaith.

16.9 Yn gyffredinol, roedd adroddiadau arolygu ar gael ar ffurf copi caled ac roedd yr wybodaeth a gasglwyd gan swyddogion yn ddarllenadwy. Sylwodd yr archwilwyr fod y manylion ar gofnodion copi caled yn gyson â'r wybodaeth a ddelid ar gronfa ddata sefydliadau bwyd yr awdurdod.

16.10 Roedd y ffurflenni cofrestru yn ymwneud â'r busnesau a ddewiswyd i'w harchwilio yn cael eu cynnal gan dîm diogelwch bwyd yr awdurdod.

16.11 Roedd tystiolaeth o fonitro mewnol ar gael yn rhai o'r ffeiliau sefydliad ac roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod cofnodion arolygu safonau bwyd wedi'u cadw am 6 blynedd o leiaf, yn unol â'r Safon.

***Bwyd Anifeiliaid***

16.12 Nid oedd adroddiadau wedi'u rhoi i fusnesau bwyd anifeiliaid yn dilyn arolygiad yn unrhyw un o'r achosion a ddewiswyd i'w harchwilio, yn groes i'r Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid.

***Iechyd Porthladd***

16.13 Roedd yr awdurdod yn cynnal cofnodion cyfredol a chywir o arolygiadau llongau ar ffurf adferadwy. Roedd yr adroddiadau hyn yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol gan y Safon.

16.14 Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod cofnodion arolygu llongau wedi'u cadw am 6 blynedd o leiaf, yn unol â'r Safon.

***Argymhelliad***

16.15 Dylai'r awdurdod:

(i) Gynnal cofnodion cyfredol a chywir ar ffurf adferadwy o bob sefydliad bwyd a bwyd anifeiliaid yn ei ardal yn unol â'r Codau Ymarfer Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Bydd y cofnodion hyn yn cynnwys adroddiadau o'r holl ymyriadau/arolygiadau, y penderfyniad ynghylch cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a wnaed gan y swyddog awdurdodedig, manylion camau a gymerwyd lle yr amlygwyd diffyg cydymffurfiaeth, manylion unrhyw gamau gorfodi a gymerwyd, canlyniadau unrhyw samplu, manylion unrhyw gwynion a chamau a gymerwyd, a gwybodaeth berthnasol am gofrestriad bwyd. [Y Safon –16.1]

## 17 Cwynion am y Gwasanaeth

17.1 Roedd yr awdurdod wedi datblygu Polisi Cwynion Corfforaethol a oedd ar gael i'r cyhoedd a busnesau bwyd ar ei wefan. Roedd y Polisi'n cynnwys gwybodaeth am sut i wneud cwyn a sut y byddai cwynion yn cael eu trin.

17.2 Rhoddodd y Rheolwyr Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach enghreifftiau o gwynion a dderbyniwyd er mwyn dangos bod trefniadau effeithiol ar waith yn y Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd i ymateb i gwynion ynghylch bwyd a bwyd anifeiliaid ac adrodd ar ganlyniadau ymchwiliadau i'r cwynion hynny.

17.3 O ran hylendid bwyd, sylwodd yr archwilwyr fod manylion uwch swyddog wedi'u darparu ar ohebiaeth pe byddai busnesau'n dymuno cwyno yn dilyn arolygiad neu ymyrraeth arall. Cynhaliodd yr archwilwyr drafodaeth gyda swyddogion ynglŷn â manteision cynnwys yr wybodaeth hon mewn gohebiaeth yn dilyn ymyriadau safonau bwyd a bwyd anifeiliaid.

## 18 Cyswllt â Sefydliadau Eraill

18.1 Roedd gan yr awdurdod drefniadau cyswllt wedi'u sefydlu ag awdurdodau cyfagos ac roedd yn ymwneud yn weithredol ag amlygu cyfleoedd ar gyfer cydweithredu wrth ddarparu gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd ar draws Gwent. Roedd trefniadau cyswllt ar waith gyda chyrff eraill hefyd er mwyn ceisio hwyluso gorfodi cyson. Roeddent yn cynnwys cymryd rhan yn y canlynol:

- Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru;
- Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru;
- Penaethiaid Safonau Masnach Cymru;
- Grŵp Bwyd ac Amaeth Cymru;
- Grŵp Bwyd Anifeiliaid Gwent Fwyaf;
- Panel Technegol Diogelwch Bwyd Cymru;
- Grŵp Llywio Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cymru;
- Y Grŵp Llywio Twyll Bwyd;
- Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru;
- Y Panel Technegol Clefydau Trosglwyddadwy;
- Y Panel Technegol Iechyd Porthladdoedd;
- Partneriaeth Dŵr ac Iechyd Cymru

18.2 Roedd cofnodion ar gael o gyfarfodydd grwpiau cyswllt ac roeddent yn cadarnhau bod cynrychiolwyr priodol o'r gwasanaeth yn bresennol ynddynt yn rheolaidd.

18.3 Roedd swyddogion Diogelu'r Cyhoedd wedi sefydlu trefniadau cyswllt ag adrannau eraill yn yr awdurdod a chyda'r:

- Asiantaeth Safonau Bwyd;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Dŵr Cymru;
- Heddlu Gwent

**19 Monitro Mewnol**

19.1 Mae monitro mewnol yn bwysig er mwyn sicrhau bod targedau perfformiad yn cael eu bodloni a gwasanaethau'n cael eu darparu yn unol â gofynion deddfwriaethol, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau'r awdurdod. Mae hefyd yn sicrhau cysondeb o ran darparu gwasanaeth.

19.2 Roedd gan yr awdurdod drefniadau cadarn ar waith ar gyfer monitro mewnol meintiol o wasanaethau gorfodi cyfraith hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. O ran hylendid bwyd, roedd y rhain wedi'u cofnodi yn y weithdrefn monitro mewnol ar gyfer diogelwch bwyd.

19.3 Roedd mesurau perfformiad allweddol wedi'u hamlygu yn y Cynllun Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd a oedd yn berthnasol i orfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid. Roedd perfformiad yn unol â'r rhain yn cael ei fonitro bob tri mis yn rhan o fframwaith monitro perfformiad corfforaethol yr awdurdod.

19.4 Roedd cynlluniau gwasanaeth ar gyfer hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid yn cynnwys mesurau perfformiad a oedd yn cael eu monitro'n fisol a bob tri mis gan y Rheolwyr Safonau Masnach ac Iechyd yr Amgylchedd.

19.5 O ran hylendid bwyd, roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod camau cywiro wedi'u cymryd lle nad oedd targedau perfformiad yn cael eu cyflawni.

19.6 Roedd gweithdrefn monitro mewnol wedi'i datblygu ar gyfer gorfodi diogelwch bwyd a ddiwygiwyd yn ystod yr archwiliad i adlewyrchu'r ystod o weithgareddau monitro mewnol a oedd yn cael eu cynnal yn ymarferol. Roedd profformâu wedi'u datblygu a'u cynnwys yn y weithdrefn i gofnodi canfyddiadau monitro mewnol.

19.7 Y Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd oedd yn gyfrifol am fonitro mewnol ansoddol. Roedd gweithgareddau monitro mewnol yn cynnwys gwirio dogfennau, adolygu penderfyniadau gorfodi, adolygu sgoriau risg, mynd gyda swyddogion ar ymweliadau a gwirio'r gronfa ddata.

19.8 Roedd gweithgareddau monitro mewnol wedi'u cynnal yn unol â'r gweithdrefnau ac roedd tystiolaeth fod swyddogion wedi cael adborth ar eu gwaith.

19.9 Roedd cyfarfodydd tîm rheolaidd wedi'u cynnal lle'r oedd materion yn ymwneud â chysondeb wedi'u trafod a'u cofnodi.

19.10 Roedd swyddogion wedi dilyn hyfforddiant a ddarparwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd i sicrhau bod sgoriau risg hylendid bwyd yn

cael eu cymhwyso'n gyson yn unol ag Atodiad 5 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

19.11 Roedd manylion y blaenoriaethau, y mesurau perfformiad a'r targedau ar gyfer safonau bwyd a bwyd anifeiliaid wedi'u nodi yng Nghynllun Darparu'r Gwasanaeth Safonau Masnach.

19.12 Roedd trefniadau monitro mewnol ansoddol ar gyfer safonau bwyd a bwyd anifeiliaid wedi'u hamlinellu yng Nghynllun Darparu'r Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Safonau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid. Cyfeiriwyd at fonitro mewnol mewn rhai gweithdrefnau gwaith hefyd e.e. gweithdrefnau cwyno ac arolygu.

19.13 Roedd gweithgareddau monitro mewnol wedi'u cynllunio er mwyn sicrhau bod;

- Blaenoriaeth yn cael ei rhoi i arolygu'r sefydliadau risg uwch;
- Camau a gymerir gan swyddogion yn cydymffurfio â Chodau Ymarfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd, a pholisïau a gweithdrefnau mewnol;
- Sgoriau risg yn briodol;
- Dehongliad swyddogion o ddeddfwriaeth a chamau gweithredu yn dilyn arolygiadau/ymchwiliadau yn gyson o fewn yr awdurdod ac yn gyson â chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog.

19.14 Roedd rhywfaint o dystiolaeth o fonitro gweithgareddau safonau bwyd yn fewnol gan Brif Swyddogion. Roedd hyn yn canolbwyntio ar amseroldeb a chamau mewn ymateb i gwynion, adolygu penderfyniadau gorfodi, gohebiaeth a ffeiliau erlyniad. Lle'r oedd gwaith safonau bwyd wedi'i fonitro'n fewnol, roedd hyn wedi'i gofnodi ac roedd swyddogion wedi cael adborth ar eu gwaith.

19.15 Nid oedd cofnodion monitro mewnol ansoddol ar gael mewn perthynas â rheolaethau swyddogol bwyd anifeiliaid.

19.16 O ystyried canfyddiadau'r archwiliad, yn enwedig mewn perthynas ag ymyriadau a gynlluniwyd ar gyfer safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, gan gynnwys camau dilynol, argymhellir y dylid cynnal monitro mewnol rheolaidd yn seiliedig ar risg ar draws yr holl feysydd gweithgareddau safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. Dylai unrhyw wiriadau ansawdd sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd gael eu cofnodi lle y bo'n bosibl os nad yw hyn eisoes yn cael ei wneud.

***Argymhellion***

19.17 Dylai'r awdurdod:

(i) Adolygu a gweithredu gweithdrefnau monitro mewnol cofnodedig ar gyfer safonau bwyd a bwyd anifeiliaid i gadarnhau ei gydymffurfiaeth â’r Safon, deddfwriaeth berthnasol, y Codau Ymarfer perthnasol, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a’i bolisïau a’i weithdrefnau cofnodedig ei hun. [Y Safon – 19.1 a 19.2]

(ii) Sicrhau bod cofnodion gweithgareddau monitro mewnol yn cael eu cynnal am ddwy flynedd. [Y Safon – 19.3)

## 20 Adolygiad gan Drydydd Parti neu Gymheiriaid

20.1 Roedd gwasanaeth gorfodi bwyd anifeiliaid yr awdurdod wedi bod yn destun archwiliad â ffocws gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sef *Rheolaethau Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid o Fwyd a Fewnforir Nad yw'n Dod o Anifeiliaid ym Mhorthladd Casnewydd*, ym mis Chwefror 2011. Gwnaed un ar bymtheg argymhelliad yr oedd wyth ohonynt wedi'u gweithredu yn y cyfnod hyd at fis Ionawr 2014.

20.2 Yn ystod yr archwiliad, roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod tri argymhelliad arall wedi'u gweithredu, gan adael pump ar ôl. Roedd y rhain yn ymwneud â chynllunio'r gwasanaeth (yn enwedig y gofyniad i amcangyfrif yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r ystod lawn o reolaethau bwyd anifeiliaid swyddogol sy'n ofynnol gan y Cytundeb Fframwaith a'r Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid o gymharu â'r rhai hynny sydd ar gael); y gofyniad i sefydlu a gweithredu gweithdrefn i sicrhau bod cronfa ddata bwyd anifeiliaid yr awdurdod yn gyfredol ac yn gywir; gwelliannau i lefel y manylion a gofnodir yn ystod arolygiadau; datblygu gweithdrefnau gorfodi (yn ymwneud â rheolaethau mewnforio yn y porthladd) ymhellach a'r gofyniad i wella cofnodion monitro mewnol.

20.3 Mae'r argymhellion hyn sy'n weddill sy'n ymwneud â gwasanaeth bwyd anifeiliaid yr awdurdod wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu a geir yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

## 21 Hybu Safonau a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

21.1 Roedd yr awdurdod wedi cynnal nifer o fentrau gyda'r nod o hybu diogelwch bwyd. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys:

- Cyhoeddi erthyglau yn y wasg yn hyrwyddo'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol ac annog defnyddwyr i wirio sgoriau hylendid bwyd cyn bwyta allan;
- Hybu diogelwch bwyd adeg y Nadolig;
- Rhoi cyhoeddusrwydd yn y wasg leol i erlyn busnesau bwyd lleol am resymau hylendid bwyd;
- Darparu hyfforddiant hylendid bwyd i bersonél Gwasanaethau Cymdeithasol.

21.2 Roedd tystiolaeth fod arferion trin a thrafod bwyd yn ddiogel a hylendid dwylo wedi'u trafod gydag achosion fel mater o drefn yn ystod ymchwiliadau i glefydau heintus. Ategwyd hyn gan gyngor cynhwysfawr ar wenwyn bwyd ar wefan yr awdurdod.

21.3 Roedd stondin yn hyrwyddo'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Cenedlaethol wedi'i darparu yng Ngŵyl Fwyd Casnewydd gyda swyddogion wrth law i roi cyngor.

21.4 Roedd gwybodaeth am safonau bwyd, gan gynnwys labelu bwyd, gwybodaeth am fwydydd a addaswyd yn enetig ac alergenau ar gael ar wefan yr awdurdod neu drwy ddolenni a ddarparwyd i wefannau'r Sefydliad Safonau Masnach a'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

21.5 Roedd cofnodion yn cael eu cadw o weithgareddau hyrwyddol.

21.6 Nid oedd bwyd anifeiliaid wedi bod yn destun unrhyw weithgareddau hyrwyddol.

***Argymhelliad***

21.7 Dylai'r awdurdod:

(i) Ddatblygu gweithgareddau hyrwyddol i gynnwys diogelwch bwyd anifeiliaid. [Y Safon – 21.1]

Archwilwyr:

**Archwilydd Arweiniol:** **Kate Thompson**
Archwilwyr: Alun Barnes
Craig Sewell

Daniel Morelli

Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
11eg Llawr
Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

**ATODIAD A**

## Cynllun Gweithredu ar gyfer Cyngor Dinas Casnewydd

## Dyddiad yr Archwiliad: 13 – 17 Ionawr 2014

| I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | CAMAU A GYMERWYD HYD YMA | |
|---|---|---|---|---|
| 3.23 (i) Datblygu'r trefniadau cynllunio gwasanaeth ymhellach, yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. Dylid cynnwys asesiad o'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid o gymharu â'r adnoddau sydd ar gael. [Y Safon – 3.1] | 1 Mehefin 2014 | Bydd yr awdurdod yn mynd i'r afael yn llawn â'r materion a amlygwyd yn yr adroddiad archwilio yn nrafft nesaf y Cynllun Gwasanaeth. | Mae'r Cynllun Bwyd a'r Cynllun Bwyd Anifeiliaid ar gyfer 2014-15 yn cynnwys asesiad o adnoddau, fel y bydd hwnnw ar gyfer 15/16<br><br>CWBLHAWYD | Safonau Masnach |
| | 1 Mehefin 2015 | Gweithredu'r argymhelliad yn ymwneud â Diogelwch Bwyd yn y Cynllun Gwasanaeth ar gyfer 15/16. | | Iechyd yr Amgyl-chedd |
| 5.12 (i) Cynnwys cyfeiriad at y trefniadau ar gyfer hyfforddiant dechreuwyr newydd a hyfforddiant gloywi mewn gweithdrefnau awdurdodi a sicrhau bod y gweithdrefnau ar gyfer awdurdodi swyddogion yn cysylltu lefelau awdurdodi ag asesiad o gymwysterau a chymwyseddau swyddogion, fel sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 5.1] | 1 Mai 2015 | Gweithredu'r argymhelliad | | Safonau Masnach |
| | 1 Mai 2015 | Bydd cyfeiriad at y trefniadau ar gyfer hyfforddiant dechreuwyr newydd a hyfforddiant gloywi yn cael ei gynnwys mewn gweithdrefnau awdurdodi. | | Iechyd yr Amgylchedd |

| I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | CAMAU A GYMERWYD HYD YMA | |
|---|---|---|---|---|
| 5.12 (ii) Adolygu a diweddaru dogfennau awdurdodi er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys cyfeiriadau at yr holl ddeddfwriaeth berthnasol a chyfredol a'u bod yn gyson â dyletswyddau, cymwysterau, hyfforddiant a phrofiad swyddogion, a'r Cod Ymarfer perthnasol. [Y Safon – 5.1 a 5.3] | 1 Mai 2015 | Cynhelir adolygiad o awdurdodiadau er mwyn sicrhau bod yr holl statudau perthnasol wedi'u cynnwys yn y rhestr ddeddfwriaeth a bod yr holl swyddogion wedi'u hawdurdodi yn unol â'u cymwysterau, hyfforddiant a phrofiad. | | Safonau Masnach |
| | 1 Ionawr 2015 | Diogelwch Bwyd: Awdurdodiadau i'w diwygio er mwyn dileu cyfeiriad at Ddeddf Bwyd a Diogelu'r Amgylchedd 1985 lle nad yw swyddogion perthnasol wedi cael eu hawdurdodi gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. | CWBLHAWYD | Iechyd yr Amgylchedd |

| I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | CAMAU A GYMERWYD HYD YMA | |
|---|---|---|---|---|
| 5.12 (iii) Sicrhau bod pob swyddog sy'n cyflawni gwaith gorfodi bwyd anifeiliaid yn meddu ar gymwysterau priodol yn unol â'r Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid a bod yr holl swyddogion awdurdodedig yn cwblhau'r 10 awr angenrheidiol o hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus. [Y Safon – 5.3] | 1 Chwefror 2015 | Gweithredu'r argymhelliad mewn perthynas â chymwysterau a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).<br><br>Cynhyrchu model 'gorfodi amgen' ar gyfer swyddogion nad ydynt yn ymwneud â bwyd anifeiliaid. | Adolygiad o gymwysterau wedi'i gwblhau a chyfarwyddiadau wedi'u rhoi i dri swyddog gynnal DPP ym maes bwyd anifeiliaid.<br>Roedd Swyddog Iechyd Anifeiliaid a oedd yn gwybod am faterion ymarferol sut i fwydo da byw yn gywir ac yn gwybod am arfer da a gofynion statudol; ond nid oedd yn meddu ar y cymwysterau priodol. Dywedwyd wrth y swyddog hwn i beidio â gweithredu o dan ddeddfwriaeth cyfraith bwyd; ond i weithredu fel 'llygaid a chlustiau' swyddogion priodol.<br>CWBLHAWYD | Safonau Masnach |

| I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | CAMAU A GYMERWYD HYD YMA | |
|---|---|---|---|---|
| 5.12 (iv) Sicrhau bod pob swyddog awdurdodedig yn derbyn yr hyfforddiant sy'n angenrheidiol i fod yn gymwys i gyflawni agweddau technegol a gweinyddol y gwaith y byddant yn ymwneud ag ef, yn unol â'r Codau Ymarfer. [Y Safon – 5.4] | 1 Mai 2015 | Gweithredu'r argymhelliad (gan gynnwys cofnodi'r fethodoleg 'adnabod problem') | Mae Arweinwyr Tîm wedi cwblhau archwiliad hyfforddiant a chymhwysedd ac mae un swyddog sydd â'r profiad a'r gallu i gwblhau gwaith bwyd anifeiliaid ond nad oes ganddo'r cymhwyster proffesiynol, wedi rhoi'r gorau i'r gweithgarwch blaenorol. Mae methodoleg 'adnabod problem' amgen wedi'i hystyried ac fe'i mabwysiadir erbyn diwedd mis Mai 15. | Safonau Masnach |
| | Adolygiadau i'w cynnal erbyn diwedd Rhag 2015. Cynlluniau datblygu i'w rhoi ar waith erbyn Rhag 2016 | Adolygiadau Blynyddol Gweithwyr i sicrhau, lle y bo'n briodol, bod y gofyniad am 10 awr o DPP yn cael ei gynnwys yn y cynlluniau datblygu ar gyfer swyddogion awdurdodedig.<br><br>Sicrhau bod cynlluniau datblygu'n cael eu dilyn a bod cynnydd yn cael ei fonitro mewn cyfarfodydd un i un. | | Iechyd yr Amgylchedd |

| I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | CAMAU A GYMERWYD HYD YMA | |
|---|---|---|---|---|
| 5.12 (v) Cynnal cofnodion o gymwysterau academaidd neu gymwysterau eraill, hyfforddiant a phrofiad perthnasol pob swyddog awdurdodedig yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol. [Y Safon – 5.5] | 1 Medi 2014 | Gweithredu'r argymhelliad<br><br>Trefniadau cofnodi canolog ar gyfer cymwysterau, hyfforddiant a phrofiad swyddogion awdurdodedig wedi'u creu. | Mae'r cofnodion bellach yn cynnwys copïau wedi'u sganio o'r holl gymwysterau perthnasol CWBLHAWYD | IA a SM |
| 6.9 (i) Sicrhau bod yr ystod angenrheidiol o offer ar gael ar gyfer samplu bwyd anifeiliaid. [Y Safon – 6.1] | 1 Ebrill 2015 | Prynu offer er mwyn caniatáu i'r ystod o waith samplu bwyd gael ei gynnal yn unol â Rheoliad 691/2013 y Comisiwn Ewropeaidd. Cael dyfynbris ar gyfer rhanwyr a phicelli samplu. | Gofynnwyd am gyllid i gynorthwyo i gael offer samplu ffurfiol yn y Porthladd. | Safonau Masnach |
| 6.9 (ii) Rhoi ei weithdrefn gofnodedig ar gyfer graddnodi offer ar waith yn llawn; datblygu gweithdrefn ar gyfer cynnal a chadw offer bwyd anifeiliaid a'i rhoi ar waith, gan sicrhau bod tystiolaeth o archwiliadau cynnal a chadw a gwasanaeth yn cael ei chynnal. [Y Safon – 6.2] | 1 Mai 2015 | Gweithredu'r argymhelliad | | Safonau Masnach |
| | 1 Ionawr 2015 | Diogelwch Bwyd: Diwygio'r weithdrefn raddnodi i'w gwneud yn llai beichus ar yr un pryd â chynnal ei heffeithiolrwydd. | CWBLHAWYD | Iechyd yr Amgylc-hedd |
| 6.9 (iii) Gweithredu'r gronfa ddata safonau bwyd mewn modd sy'n golygu y gellir darparu'r wybodaeth ofynnol i'r Asiantaeth Safonau Bwyd. [Y Safon – 6.2] | 1 Medi 2015 | Dechrau gweithredu'r argymhelliad ar syth ar ôl y penderfyniad ar ba un a yw Safonau Masnach Casnewydd am gael ei symud i lwyfan rhanbarthol. | CWBLHAWYD | Safonau Masnach |

| I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | CAMAU A GYMERWYD HYD YMA | |
|---|---|---|---|---|
| 7.19 (i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau safleoedd bwyd yn cael eu cynnal ar yr amlder gofynnol a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | Ebrill 15 | Diogelwch Bwyd: Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn bwriadu gweithredu strategaeth newydd yn 15/16 i sicrhau y rhoddir mwy o bwyslais ar arolygu busnesau risg uchel (sefydledig **a** newydd) o fewn y graddfeydd amser a bennir yn Atodiad 5 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Manteisir ar yr hyblygrwydd yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd gan ganiatáu ymyriadau bob yn ail mewn safleoedd 'C' sy'n cydymffurfio.<br><br>Bydd unrhyw ddiffyg mewn adnoddau'n cael ei amlygu yn y cynllun gwasanaeth a'r adolygiad blynyddol. | Arolygwyd yr holl safleoedd bwyd risg uchel erbyn diwedd y flwyddyn yn 13/14 a byddant yn cael eu harolygu yn 14/15.<br><br>Rhoddir blaenoriaeth ac adnoddau i safleoedd risg uchel a busnesau newydd yn unig.<br><br>Bydd Cynllun Gwasanaeth Bwyd 15/16 yn amlygu'r diffyg<br><br>CWBLHAWYD | Iechyd yr Amgylchedd |

| I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | CAMAU A GYMERWYD HYD YMA | |
|---|---|---|---|---|
| 7.19(ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau yn unol â chodau ymarfer perthnasol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog, ac yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r awdurdod. [Y Safon – 7.2] | Monitro parhaus | Diogelwch Bwyd: monitro'r weithdrefn yn fewnol | Mae'r weithdrefn ar gyfer cynnal ymyriadau (yn enwedig mewn safleoedd cymeradwy) wedi'i dwyn i sylw'r swyddogion bwyd. Mae codau newydd wedi'u sefydlu ar y gronfa ddata i gofnodi ymweliadau a gynhaliwyd ar ôl i gymeradwyaeth amodol ddod i ben<br><br>CWBLHAWYD | Iechyd yr Amgylchedd |
| 7.19(iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau â'r safonau a bennwyd yn gyfreithiol a sicrhau bod arsylwadau a wneir wrth gynnal arolygiad yn cael eu cofnodi mewn modd amserol er mwyn atal gwybodaeth berthnasol rhag cael ei cholli. [Y Safon – 7.3 a 7.5] | Ionawr 2014 | Bydd yr awdurdod yn ailadrodd y gofynion i swyddogion mewn cyfarfodydd tîm, sesiynau goruchwylio, arfarniadau ac adolygiadau perfformiad, ac yn cynnal monitro mewnol fel mater o drefn i gadarnhau cydymffurfiaeth. | Mae'r weithdrefn ar gyfer cynnal ymyriadau (yn enwedig mewn safleoedd cymeradwy) wedi'i dwyn i sylw'r swyddogion bwyd<br><br>CWBLHAWYD | Iechyd yr Amgylchedd |

| I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | CAMAU A GYMERWYD HYD YMA | |
|---|---|---|---|---|
| 7.33 (i) Sicrhau bod ymyriadau safleoedd bwyd yn cael eu cynnal ar amlder nad yw'n llai na hwnnw a bennir o dan y cynllun sgorio ymyriadau a amlinellir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon –7.1] | 1 Ebrill 2015 | Bydd yr awdurdod yn bodloni'r safon yn ymwneud â busnesau bwyd risg uchel ac yn cwblhau ymweliadau 'o fewn blwyddyn' o'r ymweliad blaenorol – yn hytrach na'r system bresennol o ymweld â phob safle risg uchel yn ystod y flwyddyn ariannol benodol honno. Caiff cynnydd ei fonitro yn unol â'r weithdrefn monitro mewnol.<br><br>Fodd bynnag; ar gyfer busnesau risg is, manteisir ar yr hyblygrwydd yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd i ganiatáu ar gyfer defnyddio Strategaeth Gorfodi Amgen. Archwilir pob dewis arall posibl o ran cyflawni ymyriadau mewn busnesau risg ganolig ac, os oes angen, amlygir unrhyw ddiffyg mewn adnoddau yn y cynllun gwasanaeth a'r adolygiad blynyddol. | Gweithredu ar waith ar gyfer 15/16 | Safonau Masnach |

| I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | CAMAU A GYMERWYD HYD YMA | |
|---|---|---|---|---|
| 7.33 (ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau safonau bwyd yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, Codau Ymarfer, a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon –7.2] | 1 Chwefror 2015 | Bydd yr awdurdod yn ystyried yr holl sylwadau y cyfeirir atynt ym mharagraffau 7.20 i 7.32 ac yn gweithio i gyflwyno cynllun sgorio risg safonau bwyd priodol, ei gymhwyso'n gywir a chynnal ailymweliadau yn unol â'r polisi.<br><br>Yn achos unrhyw wyro achlysurol o bolisïau a gweithdrefnau, bydd penderfyniadau'n cael eu cofnodi ar y ffeiliau achos a'r cofnodion arolygu. Cynhelir monitro mewnol i gadarnhau cydymffurfiaeth. | CWBLHAWYD | Safonau Masnach |
| 7.33(iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau â safonau a bennwyd yn gyfreithiol, cofnodi arsylwadau a wnaed a/neu ddata a gafwyd yn ystod ymyriadau mewn modd amserol er mwyn atal gwybodaeth berthnasol rhag cael ei cholli a sicrhau bod cofnodion cyfoes swyddogion o ymyriadau'n cael eu storio mewn ffordd adferadwy. Yn arbennig, sicrhau bod asesiadau o olrheiniadwyedd, labelu a gofynion cyfansoddol yn cael eu cofnodi'n fanwl, a bod gwybodaeth am raddfa busnesau a'u gweithgareddau'n cael ei chofnodi. [Y Safon –7.3 a 7.5] | 1 Ebrill 2015 | Bydd gweithdrefnau gwell yn cael eu rhoi ar waith sy'n disgrifio sut y dylai swyddogion fynd ati i gofnodi arolygiad, er mwyn casglu'r wybodaeth allweddol a ddisgrifir yn 7.28; ar gyfer pob ymyrraeth ac nid dim ond ymyriadau risg uchel (lle y cesglir yr wybodaeth eisoes fel mater o drefn).<br>Bydd yr awdurdod yn ailadrodd y gofynion i swyddogion mewn cyfarfodydd tîm, sesiynau goruchwylio, arfarniadau ac adolygiadau perfformiad, ac yn cynnal monitro mewnol fel mater o drefn i gadarnhau cydymffurfiaeth. | CWBLHAWYD | Safonau Masnach |

| I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | CAMAU A GYMERWYD HYD YMA | |
|---|---|---|---|---|
| 7.33 (iv) Adolygu ei weithdrefn arolygu er mwyn rhoi arweiniad i swyddogion ar y materion y dylent eu hystyried yn ystod arolygiadau safonau bwyd, a sicrhau bod y polisi ailymweld yn cynnwys y meini prawf i'w hystyried wrth bennu a ddylid cymryd camau dilynol ac amseriad ymweliad dilynol. [Y Safon – 7.4] | 1 Ebrill 2015 | Gweithredu'r argymhelliad | CWBLHAWYD | Safonau Masnach |
| 7.48 (i) Sicrhau bod ymyriadau sefydliadau bwyd anifeiliaid yn cael eu cynnal ar yr amlder a bennir gan y Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid. [Y Safon –7.1] | 1 Ebrill 2015 | Bydd yr awdurdod yn gweithio gydag awdurdodau lleol ledled Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd i weithredu rhaglen ymyriadau bwyd anifeiliaid seiliedig ar risg ar gyfer Cymru yn unol â'r rhaglen gytunedig. | WEDI'I WNEUD – rhaglen Bwyd Anifeiliaid newydd ar gyfer Gwent gyfan | Safonau Masnach |

| I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | CAMAU A GYMERWYD HYD YMA | |
|---|---|---|---|---|
| 7.48 (ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau mewn sefydliadau bwyd anifeiliaid yn unol â’r ddeddfwriaeth berthnasol, Codau Ymarfer, a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Sicrhau bod gweithdrefnau ymyrraeth bwyd anifeiliaid yn cael eu diwygio yn unol â hynny. [Y Safon –7.2] | 1 Ebrill 2015 | Bydd yr awdurdod yn ystyried yr holl sylwadau y cyfeirir atynt ym mharagraffau 7.35 i 7.47 ac yn gweithio i gyflwyno cynllun sgorio risg priodol ar gyfer sefydliadau bwyd anifeiliaid, ei gymhwyso’n gywir, sicrhau bod arolygiadau’n ddirybudd yn unol â’r weithdrefn a chynnal ailymweliadau yn unol â’r polisi. Yn achos unrhyw wyro achlysurol o bolisïau a gweithdrefnau, bydd penderfyniadau’n cael eu cofnodi ar y ffeiliau achos a’r cofnodion arolygu. Cynhelir monitro mewnol i gadarnhau cydymffurfiaeth. Asesir diweddariadau i gofrestriad yn rhan o’r prosiect a ariennir gan Gwent. | WEDI’I WNEUD – rhaglen Bwyd Anifeiliaid newydd ar gyfer Gwent gyfan | Safonau Masnach |
| 7.48 (iii) Sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i ddilyn diffyg cydymffurfiaeth mewn sefydliadau bwyd anifeiliaid yn unol â’i Bolisi Gorfodi. [Y Safon –7.3] | 1 Chwefror 2015 | Gweithredu’r argymhelliad: cyfarwyddiadau atgoffa i’w rhoi i bob swyddog. Cynhelir monitro mewnol i gadarnhau cydymffurfiaeth. | CWBLHAWYD | Safonau Masnach |

| I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | CAMAU A GYMERWYD HYD YMA | |
|---|---|---|---|---|
| 7.48 (iv) Sicrhau bod arsylwadau a wneir yn ystod ymyriadau'n cael eu cofnodi mewn modd amserol a bod cofnodion cyfoes swyddogion o ymyriadau'n cael eu storio mewn ffordd adferadwy. [Y Safon – 7.5] | 27 Tachwedd 2014 | Bydd yr awdurdod yn ailadrodd y gofynion i swyddogion mewn cyfarfodydd tîm, sesiynau goruchwylio, arfarniadau ac adolygiadau perfformiad, ac yn cynnal monitro mewnol fel mater o drefn i gadarnhau cydymffurfiaeth. | Cyfarwyddiadau atgoffa wedi'u rhoi i bob swyddog<br><br>CWBLHAWYD | Safonau Masnach |
| 8.14 (i) Egluro'r hyn sy'n 'fater mwy brys' sy'n mynnu ymateb mwy amserol yn ei weithdrefn gwyno ynghylch hylendid bwyd; | 1 Mai 2015 | Diwygio'r weithdrefn | | Iechyd yr Amgylchedd |
| 8.14 (i) adolygu a diwygio'r weithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion bwyd anifeiliaid o ran hysbysiadau cynnar o lwythi bwyd anifeiliaid. [Y Safon – 8.1] | 1 Chwefror 2015 | Bydd y dull cofnodi'n cael ei ddiwygio fel y trafodwyd ac yn cael ei reoli drwy'r tabiau IVA yn y maes 'Cais am Wasanaeth' yn hytrach na'r tabiau IVA yn y maes 'Cofrestr Busnes'. | CWBLHAWYD | Safonau Masnach |
| 8.14 (ii) Ymchwilio i gwynion yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a'i bolisi a'i weithdrefnau ei hun. Yn arbennig, sicrhau yr ymchwilir i bob achos o fewn y graddfeydd amser | Ionawr 2015<br><br>Monitro parhaus | Rhoi'r weithdrefn ddiwygiedig i swyddogion bwyd a monitro ei defnydd yn fewnol. | CWBLHAWYD | Iechyd yr Amgylchedd |

| I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | CAMAU A GYMERWYD HYD YMA | |
|---|---|---|---|---|
| gofynnol. [Y Safon – 8.2] | 1 Chwefror 2015 | Bydd yr awdurdod yn ailadrodd y gofynion i swyddogion mewn cyfarfodydd tîm, sesiynau goruchwylio, arfarniadau ac adolygiadau perfformiad, ac yn cynnal monitro mewnol fel mater o drefn i gadarnhau cydymffurfiaeth. | CWBLHAWYD | Safonau Masnach |
| 8.14 (iii) Cymryd camau priodol ynglŷn â chwynion safonau bwyd yn unol â'i Bolisi Gorfodi. [Y Safon – 8.3] | 1 Chwefror 2015 | Gweithredu'r argymhelliad: rhoi cyfarwyddiadau atgoffa i bob swyddog.<br><br>Er mwyn gwirio bod y polisïau cwynion yn cael eu dilyn; cynhelir archwiliadau cofnodedig o'r holl gwynion bwyd a bwyd anifeiliaid bob 6 mis am flwyddyn o ddyddiad yr adroddiad archwilio (Chwefror ac Awst 2015) | CWBLHAWYD | Safonau Masnach |
| 11.8 (i) Cynnal adolygiad o'r gronfa ddata bwyd anifeiliaid er mwyn sicrhau ei chywirdeb. [Y Safon – 11.1] | 1 Medi 2015 | Bydd gwaith yn cael ei wneud ar yr argymhelliad ac yn cael ei adolygu i sicrhau bod yr awdurdod yn cyfrannu gwybodaeth gywir o'r gronfa ddata tuag at ddatblygu'r model darparu gwasanaeth bwyd anifeiliaid newydd ar gyfer Cymru. | Wedi'i wneud ac yn eithaf cywir erbyn hyn, ond caiff ei adolygu yn rhan o brosiect Bwyd Anifeiliaid Gwent | Safonau Masnach |

| I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | CAMAU A GYMERWYD HYD YMA | |
|---|---|---|---|---|
| 13.8 (i) Sicrhau bod yr holl gofnodion sy'n ymwneud â rheoli ac ymchwilio i glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn cael eu cadw am 6 blynedd o leiaf. | Ionawr 2015 | Bydd yr awdurdod yn ailadrodd y gofynion i swyddogion mewn cyfarfodydd tîm, sesiynau goruchwylio, arfarniadau ac adolygiadau perfformiad, ac yn cynnal monitro mewnol fel mater o drefn i gadarnhau cydymffurfiaeth. | Mae swyddogion wedi'u hatgoffa o bwysigrwydd hyn ac mae'r gronfa ddata wedi'i datblygu ymhellach i gofnodi'r gwaith hwn yn fwy effeithiol. CWBLHAWYD | Iechyd yr Amgylchedd |
| 15.23(i) Sefydlu gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer dirymu / tynnu'n ôl cofrestriad sefydliad bwyd anifeiliaid ac ar gyfer dal gafael ar fwyd anifeiliaid a fewnforiwyd, ei ddinistrio, ei drin yn arbennig a'i ailddosbarthu yn unol â'r Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid a chanllawiau swyddogol. [Y Safon –15.2] | 1 Mai 2015 | Bydd y gweithdrefnau ar gyfer dirymu / tynnu'n ôl cofrestriad sefydliad bwyd anifeiliaid ac ar gyfer dal gafael ar fwyd anifeiliaid a fewnforiwyd, ei ddinistrio, ei drin yn arbennig a'i ailddosbarthu yn cael eu cofnodi. | Aros am ledaenu gweithdrefnau safonol – wrthi'n cael eu cwblhau'n derfynol | Safonau Masnach |

| I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | CAMAU A GYMERWYD HYD YMA | |
|---|---|---|---|---|
| 15.23 (ii) Sicrhau bod camau gorfodi cyfraith hylendid bwyd yn cael eu cynnal yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod ei hun. [Y Safon – 15.2 a 15.3] | Parhaus ar gyfer archwiliadau Adroddiadau Trosedd | Archwiliadau o Adroddiadau Trosedd (lle yr ymdrinnir ag achosion drwy erlyniad / rhybudd syml) i sicrhau y glynir wrth raddfeydd amser ar gyfer gwirio cydymffurfiaeth.<br>Bydd yr awdurdod hefyd yn ailadrodd y gofynion yn ymwneud â rhoi hysbysiadau, dwysáu camau gorfodi'n raddol, cadarnhad ysgrifenedig o gau'n wirfoddol a pharatoi ffeiliau achos rhybudd syml llawn i swyddogion mewn cyfarfodydd tîm, sesiynau goruchwylio, arfarniadau ac adolygiadau perfformiad, ac yn cynnal monitro mewnol fel mater o drefn i gadarnhau cydymffurfiaeth. | Swyddogion bwyd wedi'u hatgoffa o bwysigrwydd gwirio cydymffurfiaeth â Hysbysiadau Gwella Hylendid yn amserol a'r angen i ddilyn canllawiau FLCOP ar ymestyn yr amser ar gyfer cydymffurfio â Hysbysiad Gwella Hylendid<br><br>CWBLHAWYD | Iechyd yr Amgylchedd |
| 15.23 (iii) Sicrhau bod yr holl benderfyniadau ar gamau gorfodi'n cael eu gwneud yn dilyn ystyriaeth o bolisi gorfodi'r awdurdod a bod y rhesymau dros wyro o'r meini prawf a amlinellir yn y polisi'n cael eu cofnodi. [Y Safon –15.4] | 1 Mehefin 2014 | Bydd penderfyniadau ar gamau gorfodi'n cael eu cofnodi yn erbyn y meini prawf yn y Polisi Gorfodi ym mhob achos. Yn achos unrhyw wyro, bydd y rhesymau'n cael eu cofnodi yn y ffeil achos. Cynhelir monitro mewnol i gadarnhau cydymffurfiaeth. | Cwblhawyd | Safonau Masnach |

| I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | CAMAU A GYMERWYD HYD YMA | |
|---|---|---|---|---|
| | Ionawr 2014 | Bydd penderfyniadau ar gamau gorfodi'n cael eu cofnodi yn erbyn y meini prawf yn y Polisi Gorfodi ym mhob achos. Yn achos unrhyw wyro, bydd y rhesymau'n cael eu cofnodi yn y ffeil achos. Cynhelir monitro mewnol i gadarnhau cydymffurfiaeth. | Swyddogion Diogelwch Bwyd wedi'u hatgoffa i sicrhau bod unrhyw wyro o'r polisi'n cael ei amlygu a'i gymeradwyo fel y bo'n briodol.<br>CWBLHAWYD | Iechyd yr Amgylchedd |
| 16.15 (i) Cynnal cofnodion cyfredol a chywir ar ffurf adferadwy o bob sefydliad bwyd a bwyd anifeiliaid yn ei ardal yn unol â'r Codau Ymarfer Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Bydd y cofnodion hyn yn cynnwys adroddiadau o'r holl ymyriadau / arolygiadau, y penderfyniad ynghylch cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a wnaed gan y swyddog awdurdodedig, manylion camau a gymerwyd lle yr amlygwyd diffyg cydymffurfiaeth, manylion unrhyw gamau gorfodi a gymerwyd, canlyniadau unrhyw samplu, manylion unrhyw gwynion a chamau a gymerwyd, a gwybodaeth | 1 Mawrth 2015 | Bydd yr awdurdod yn gweithredu'r argymhelliad drwy gymryd y camau canlynol:<br>Atgoffir swyddogion y dylai adroddiadau ymyrraeth bwyd a bwyd anifeiliaid gael eu rhoi i fusnesau bob amser a; dylent wahaniaethu rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion; cynnwys graddfeydd amser ar gyfer cydymffurfio; dylai'r adroddiadau fod yn ddarllenadwy; dylai manylion yr adroddiadau gael eu cofnodi ar y gronfa ddata; a dylent gynnwys manylion uwch swyddog. Cynhelir monitro mewnol i gadarnhau cydymffurfiaeth. | CWBLHAWYD | Safonau Masnach |

| I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | CAMAU A GYMERWYD HYD YMA | |
|---|---|---|---|---|
| berthnasol am gofrestriad bwyd. [Y Safon –16.1] | | Bydd llythyrau adroddiad yn cael eu diwygio i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer.<br>Caiff cofnodion eu monitro'n fewnol i gadarnhau cydymffurfiaeth. | Y gweithdrefnau ar gyfer storio cofnodion wedi'u diwygio bellach i adlewyrchu trefniadau storio electronig.<br><br>Ffurflenni cofrestru bwyd yn cael eu dal yn electronig ar gyfer y tîm Iechyd yr Amgylchedd.<br><br>Cofnodion ar gyfer safleoedd cymeradwy wedi'u diweddaru a gwybodaeth allweddol i gydymffurfio â'r canllawiau'n cael ei dal bellach ar gyfer pob safle CWBLHAWYD | Iechyd yr Amgylchedd |
| 19.17 (i) Adolygu a gweithredu gweithdrefnau monitro mewnol cofnodedig ar gyfer safonau bwyd a bwyd anifeiliaid i gadarnhau ei gydymffurfiaeth â'r Safon, deddfwriaeth berthnasol, y Codau Ymarfer perthnasol, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a'i bolisïau a'i weithdrefnau cofnodedig ei hun. [Y Safon – 19.1 a 19.2] | 1 Mai 2015 | Gweithredu'r argymhelliad yn dilyn cyngor ychwanegol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd<br><br>Rhoddir sylw dyfal i'r sylwadau yn 19.11 i 19.16 | | Safonau Masnach |

| I DDERBYN SYLW (ARGYMHELLIAD GAN GYNNWYS PARAGRAFF SAFONOL) | ERBYN (DYDDIAD) | GWELLIANNAU ARFAETHEDIG | CAMAU A GYMERWYD HYD YMA | |
|---|---|---|---|---|
| 19.17 (ii) Sicrhau bod cofnodion gweithgareddau monitro mewnol yn cael eu cynnal am ddwy flynedd. [Y Safon – 19.3) | 1 Chwefror 2015 | Gweithredu'r argymhelliad | CWBLHAWYD | Safonau Masnach |
| 21.7 (i) Datblygu gweithgareddau hyrwyddol i gynnwys diogelwch bwyd anifeiliaid. [Y Safon – 21.1] | 1 Medi 2015 | Gweithio gydag awdurdodau lleol ledled Cymru a'r Asiantaeth Safonau Bwyd i gyflawni'r gwaith hwn ar lefel Cymru gyfan o fis Ebrill 2015 ymlaen. | | Safonau Masnach |

**ATODIAD B**

**Dull/Methodoleg yr Archwiliad**

Cynhaliwyd yr archwiliad gan ddefnyddio ystod o wahanol fathau o ddulliau a methodoleg, fel a ganlyn:

***(1) Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r awdurdod lleol***

Archwiliwyd y polisïau, y gweithdrefnau a'r dogfennau cysylltiedig canlynol:

Cynllun Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Dinas Casnewydd 2013/14
Cynllun Uned Busnes Iechyd yr Amgylchedd 2013-2014
Cynllun Uned Busnes Diogelwch Bwyd a Chlefydau Trosglwyddadwy Iechyd yr Amgylchedd 2014/2014
Is-adran Safonau Masnach – Cynllun Darparu Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Safonau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid 2012/13
Is-adran Safonau Masnach – Cynllun Uned Busnes ac Asesiad Strategol 2012/13
adran Safonau Masnach – Cynllun Uned Busnes ac Asesiad Strategol 2013/14
adran Safonau Masnach – Cynllun Uned Busnes ac Asesiad Strategol 2013/14 –17 Medi 2013 – 3 Rhagfyr 2013
Is-adran Safonau Masnach – Cynllun Uned Busnes ac Asesiad Strategol 2012/13 –1 Mai 2013 – 27 Mehefin 2013
Adroddiad i Aelodau'r Cabinet 7 Awst 2013 – Cynllun Gwella Gwasanaethau Adfywio a Rheoleiddio 2013/14
Adroddiad Cynnydd Diogelu'r Cyhoedd – mis Ebrill i fis Medi 2013
Adroddiad Briffio i'r Aelod Cabinet ar gyfer Swyddogaethau Statudol a Thrwyddedu, mis Rhagfyr 2013 – Cynlluniau Uned Busnes Diogelwch Bwyd, Clefydau Trosglwyddadwy, Safonau Bwyd Anifeiliaid a Safonau Bwyd 2013-2014 Diweddariad Hanner Blwyddyn
Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu ar Wasanaethau Strydlun, Adfywio a Diogelwch, 9 Rhagfyr 2013 – Cynlluniau Gwasanaeth 2013/14 – Monitro Cynnydd
Adroddiad i'r Aelod Cabinet ar gyfer Swyddogaethau Statudol a Thrwyddedu, Tachwedd 2013 – Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd Gorfodol
Pwerau Dirprwyedig Diogelu'r Cyhoedd Cyngor Dinas Casnewydd, Ionawr 2012
Gweithdrefn Gwasanaethau Adfywio a Rheoleiddio Cyngor Dinas Casnewydd ar gyfer Awdurdodi Swyddogion
Is-adran Safonau Masnach Cyngor Dinas Casnewydd – Gweithdrefn Awdurdodi a Chymhwysedd
Is-adran Safonau Masnach Cyngor Dinas Casnewydd – Gweithdrefn Monitro Offer Samplu Bwyd
Gweithdrefn Gwasanaethau Adfywio a Rheoleiddio Cyngor Dinas Casnewydd ar gyfer Graddnodi Thermomedrau
Polisi Cyngor Dinas Casnewydd ar gyfer Mynediad at y Rhwydwaith, E-bost a'r Rhyngrwyd

Gorfodi Diogelwch Bwyd Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Dinas Casnewydd – Gweithdrefn Rheoli Dogfennau
Cyngor Dinas Casnewydd – Gweithdrefn Ymyriadau Hylendid Bwyd 14/11/13
Gweithdrefn Busnes Bwyd Newydd, Tachwedd 2013
Cyngor Dinas Casnewydd – Gweithdrefn Ailymweliadau Hylendid Bwyd 26/11/13
Ffurflen Grynhoi ar gyfer Arolygiad Hylendid Bwyd a Raglennwyd
Cyngor Dinas Casnewydd – Gweithdrefn ar gyfer Cymeradwyo Sefydliadau Busnes Bwyd sy’n Trin a Thrafod Bwyd sy’n Dod o Anifeiliaid
Cyngor Dinas Casnewydd – Ffurflen Gais am Gymeradwyo Sefydliad Busnes Bwyd sy’n Ddarostyngedig i Gymeradwyaeth o dan Reoliad 853/2004 y Comisiwn Ewropeaidd
Cyngor Dinas Casnewydd – Ffurflen ar gyfer Hysbysu am Gymeradwyaeth Lawn/ Cymeradwyaeth Amodol Sefydliad Busnes Bwyd sy’n Ddarostyngedig i Gymeradwyaeth o dan Reoliad 853/2004 y Comisiwn Ewropeaidd
Cyngor Dinas Casnewydd – Ffurflen ar gyfer Hysbysu ynghylch Penderfyniad i Wrthod Rhoi Cymeradwyaeth i Sefydliad Busnes Bwyd sy’n Ddarostyngedig i Gymeradwyaeth o dan Reoliad 853/2004 y Comisiwn Ewropeaidd
Cyngor Dinas Casnewydd – Ffurflen ar gyfer Hysbysu ynghylch Penderfyniad i Atal Dro Dro Cymeradwyaeth/Cymeradwyaeth Amodol Sefydliad Busnes Bwyd sy’n Ddarostyngedig i Gymeradwyaeth o dan Reoliad 853/2004 y Comisiwn Ewropeaidd
Cyngor Dinas Casnewydd – Ffurflen ar gyfer Hysbysu ynghylch Penderfyniad i Wrthod Rhoi Cymeradwyaeth Lawn i Sefydliad Busnes Bwyd sy’n Ddarostyngedig i Gymeradwyaeth o dan Reoliad 853/2004 y Comisiwn Ewropeaidd a Gymeradwywyd yn Amodol o dan Reoliad 882/2004 y Comisiwn Ewropeaidd
Cyngor Dinas Casnewydd – Gweithdrefn ar gyfer Tynnu Cymeradwyaeth yn Ôl neu ei Hatal Dros Dro mewn Safle a Gymeradwywyd o dan Reoliad 853/2004 y Comisiwn Ewropeaidd
Is-adran Safonau Masnach Cyngor Dinas Casnewydd – Gweithdrefn Asesu ac Arolygu Masnachwyr
Is-adran Safonau Masnach Cyngor Dinas Casnewydd – Cyfarwyddyd Gwaith yn Ymdrin â Bwyd Anifeiliaid wedi’i Fewnforio yn Nociau Casnewydd
Is-adran Safonau Masnach Cyngor Dinas Casnewydd – Cyfarwyddyd Gwaith yn Ymdrin â Bwyd Anifeiliaid mewn Ffermydd
Is-adran Safonau Masnach Cyngor Dinas Casnewydd – Cyfarwyddyd Gwaith ar Samplu Bwyd Anifeiliaid
Is-adran Safonau Masnach Cyngor Dinas Casnewydd – Cyfarwyddyd Gwaith ar Atafaelu a Dal Gafael ar Fwyd Anifeiliaid
Is-adran Safonau Masnach Cyngor Dinas Casnewydd – Cyfarwyddiadau Gwaith ar Roi Hysbysiadau Gwahardd Brys – Hylendid Bwyd Anifeiliaid; Hysbysiadau Cau’n Wirfoddol; a Hysbysiadau Gwahardd
Is-adran Safonau Masnach Cyngor Dinas Casnewydd – Gweithdrefn Cais am Wasanaeth
Gorfodi Diogelwch Bwyd Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Dinas Casnewydd – Gweithdrefn Cwynion Bwyd (nad yw’n cynnwys Cwynion ynghylch Gwenwyn

Bwyd Honedig neu Gwynion yn ymwneud â Phobl sy’n Trin a Thrafod Bwyd neu Gyflwr Safleoedd Bwyd)
Gorfodi Diogelwch Bwyd Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Dinas Casnewydd – Cwynion (yn ymwneud â Safleoedd Bwyd a/neu Bobl sy’n Trin a Thrafod Bwyd)
Iechyd yr Amgylchedd a Thrwyddedu Cyngor Dinas Casnewydd – Gweithdrefn Ceisiadau am Wasanaeth
Iechyd yr Amgylchedd a Thrwyddedu Cyngor Dinas Casnewydd – Polisi Cwynion Bwyd
Cyfarwyddyd Gwaith Is-adran Safonau Masnach Cyngor Dinas Casnewydd – Gwirio Busnesau ar Gronfeydd Data
Cyfarwyddyd Gwaith Is-adran Safonau Masnach Cyngor Dinas Casnewydd – Diweddaru’r Gronfa Ddata yn dilyn Newidiadau i Wybodaeth am Fusnes
Cyngor Dinas Casnewydd – Penodi Dadansoddwyr Cyhoeddus/Dadansoddwyr Amaethyddol
Gweithdrefn Cyngor Dinas Casnewydd – Samplu Bwyd yn Anffurfiol ar gyfer Archwiliad Microbiolegol
Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Dinas Casnewydd – Polisi Samplu Bwyd
Gweithdrefn Cyngor Dinas Casnewydd – Samplu Bwyd yn Ffurfiol ar gyfer Archwiliad Microbiolegol
Cyngor Dinas Casnewydd – Rhaglen Samplu Bwyd ar gyfer Ansawdd Microbiolegol 2012/13
Cyngor Dinas Casnewydd – Rhaglen Samplu Bwyd 2013/14 (Archwiliad Bacteriolegol)
Is-adran Safonau Masnach Cyngor Dinas Casnewydd – Gweithdrefn Prynu a Samplu Prawf
Is-adran Safonau Masnach Cyngor Dinas Casnewydd – Cyfarwyddyd Gwaith ar Samplu Bwyd Anifeiliaid
Is-adran Safonau Masnach Cyngor Dinas Casnewydd – Gweithdrefn Prynu a Samplu Prawf
Gorfodi Diogelwch Bwyd Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Dinas Casnewydd – Gweithdrefn Rhybuddion a Digwyddiadau Bwyd
Gorfodi Diogelwch Bwyd Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Dinas Casnewydd – Gweithdrefn ar gyfer Prosesu Rhybuddion a Hysbysiadau Eraill a Dderbynnir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd
Is-adran Safonau Masnach Cyngor Dinas Casnewydd – Cyfarwyddyd Gwaith ar Rybuddion Bwyd a Bwyd Anifeiliaid gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd
Cyngor Dinas Casnewydd – Gweithdrefn Hysbysu am Glefydau Heintus ac Ymchwilio Iddynt
Cynllun Cyngor Dinas Casnewydd ar gyfer Ymdrin ag Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy
Cyngor Dinas Casnewydd – Pecyn sy’n cynnwys Tystiolaeth o Gyngor Busnes
Polisi Gorfodi Diogelu’r Cyhoedd Cyngor Dinas Casnewydd, Tachwedd 2013
Gweithdrefn Hysbysiadau Gwella Hylendid
Gweithdrefn Hysbysiadau Gwahardd Brys Hylendid
Gweithdrefn Hysbysiadau Camau Unioni
Gweithdrefn Dal Gafael ar Fwyd, Atafaelu Bwyd ac Ildio Bwyd yn Wirfoddol

Gweithdrefn Hysbysiadau Dal Gafael mewn Sefydliadau sy’n Ddarostyngedig i Gymeradwyaeth o dan Reoliad 853/2004
Iechyd yr Amgylchedd – Gweithdrefn Cychwyn Achos Cyfreithiol
Is-adran Safonau Masnach – Gweithdrefn Tystiolaeth
Is-adran Safonau Masnach – Cyfarwyddyd Gwaith ar Achosion i’r Adran Gyfreithiol
Is-adran Safonau Masnach – Cyfarwyddyd Gwaith ar Gyfweliadau sy’n cael eu Recordio ar Dâp
Is-adran Safonau Masnach – Cyfarwyddyd Gwaith ar Gyfweliadau Llyfr Nodiadau Swyddogion
Is-adran Safonau Masnach – Rhybuddio a Chyfweld Pobl a Ddrwgdybir
Is-adran Safonau Masnach – Gweithdrefn Adroddiad Trosedd
Is-adran Safonau Masnach – Cyfarwyddyd Gwaith ar Gamau Gweithredu pan fydd Bwyd Anifeiliaid neu Safle yn Anfoddhaol
Polisi Cwynion Corfforaethol Cyngor Dinas Casnewydd

***(2) Adolygu ffeiliau:***

Adolygwyd nifer o gofnodion yr awdurdod lleol yn ystod yr archwiliad, gan gynnwys:

- Ffeiliau arolygu sefydliadau bwyd cyffredinol
- Ffeiliau sefydliadau cymeradwy
- Cofnodion cwynion am fwyd a sefydliadau bwyd
- Cofnodion gorfodi ffurfiol
- Awdurdodiadau swyddogion, rhestrau gwirio cymhwysedd a chofnodion hyfforddiant
- Cofnodion monitro mewnol
- Cofnodion graddnodi
- Cofnodion digwyddiadau bwyd

***(3) Adolygu cofnodion ar gronfeydd data:***

Ystyriwyd detholiad o gofnodion ar gronfeydd data yn ystod yr archwiliad er mwyn:

- Adolygu ac asesu pa mor gyflawn yw cofnodion ar gronfeydd data am arolygiadau bwyd/bwyd anifeiliaid, ymchwiliadau i gwynion am fwyd/bwyd anifeiliaid a sefydliadau bwyd/bwyd anifeiliaid, samplau a gymerwyd gan yr awdurdod, gorfodi ffurfiol a gweithgareddau eraill, ac i gadarnhau cysondeb â chofnodion ffeil
- Asesu pa mor gyflawn a chywir yw cronfeydd data sefydliadau bwyd a bwyd anifeiliaid
- Asesu gallu’r system i gynhyrchu adroddiadau ar weithgarwch gorfodi cyfraith bwyd/bwyd anifeiliaid a’r wybodaeth fonitro sy’n ofynnol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

**(4)*) Cyfweliadau â swyddogion:***

Cynhaliwyd cyfweliadau â swyddogion er mwyn cael mwy o wybodaeth am sut yr oedd trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli bwyd/bwyd anifeiliaid yn cael eu gweithredu a'u cynnal yn ymarferol. Cynhaliwyd cyfweliadau â'r swyddogion canlynol:

Rheolwr Safonau Masnach
Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd
Prif Swyddog Safonau Masnach (Swyddog Arweiniol Safonau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid)
Prif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd (Swyddog Arweiniol Hylendid Bwyd)
Prif Swyddog Safonau Masnach
Swyddog Iechyd yr Amgylchedd

Mae'r farn a'r safbwyntiau a fynegwyd yn ystod cyfweliadau â swyddogion yn gyfrinachol ac ni chyfeirir atynt yn uniongyrchol yn yr adroddiad.

**(5) *Ymweliadau dilysu ar y safle:***

Cynhaliwyd ymweliadau dilysu â thri busnes bwyd lleol ac un busnes bwyd anifeiliaid gyda swyddogion. Diben yr ymweliadau hyn oedd dilysu canlyniad yr arolygiadau diwethaf a gynhaliwyd gan yr Awdurdod Lleol ac asesu i ba raddau yr oedd penderfyniadau a gweithgareddau gorfodi yn bodloni gofynion deddfwriaeth berthnasol, y Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog.

# Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| Archwilio Rhyng-awdurdod | System lle y gallai awdurdodau lleol archwilio eu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd ei gilydd yn unol â safon ansawdd gytunedig. |
| Archwiliwr Bwyd | Unigolyn â chymwysterau rhagnodedig sy’n cynnal dadansoddiad microbiolegol ar ran yr awdurdod lleol. |
| Arolygiad | Archwiliad o sefydliad bwyd neu fwyd anifeiliaid er mwyn dilysu cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid. |
| Asiantaeth Safonau Bwyd | Rheoleiddiwr y Deyrnas Unedig ar gyfer diogelwch bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. |
| Awdurdod Cartref | Awdurdod lle y mae canolfan benderfynu berthnasol menter wedi’i lleoli ac sydd wedi ymgymryd â’r cyfrifoldeb o gynghori’r busnes hwnnw ar faterion diogelwch bwyd/safonau bwyd. Mae’n gweithredu fel pwynt cyswllt canolog ar gyfer ymholiadau awdurdodau gorfodi eraill ynglŷn â pholisïau a gweithdrefnau bwyd y cwmni hwnnw. |
| Awdurdod Gwreiddiol | Awdurdod y mae busnes yn cynhyrchu neu’n pecynnu nwyddau neu wasanaethau o fewn ei ardal, ac y mae’r awdurdod yn gweithredu fel pwynt cyswllt canolog ar ei gyfer o ran ymholiadau awdurdodau gorfodi eraill ynglŷn â’r cynhyrchion hynny. |
| Awdurdod Unedol | Awdurdod lleol lle y mae’r holl swyddogaethau wedi’u cyfuno, er enghraifft Awdurdodau Cymru a Bwrdeistrefi Llundain. Bydd cyfrifoldebau Awdurdod Unedol yn cynnwys gorfodi hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. |
| Busnes heb sgôr | Busnes bwyd a amlygwyd gan awdurdod nad yw wedi cael asesiad sgorio risg rheoleiddiol. |
| Bwrdd Safonau Masnach Cenedlaethol | Corff sy’n atebol i’r llywodraeth sy’n darparu dylanwad arweinyddiaeth, cymorth ac adnoddau er mwyn helpu i fynd i’r afael â niwed i ddefnyddwyr a busnesau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn |

| | |
|---|---|
| | genedlaethol. |
| Codau Ymarfer | Codau Ymarfer y Llywodraeth a gyhoeddwyd o dan Adran 40 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 fel canllawiau i awdurdodau lleol ar orfodi deddfwriaeth fwyd. |
| Cofrestru | Proses gyfreithiol sy'n mynnu bod pob gweithredwr busnes bwyd yn hysbysu'r awdurdod bwyd priodol pan fydd yn sefydlu busnes bwyd. |
| CPIA | Deddf Gweithdrefnau ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 – mae'n llywodraethu'r gweithdrefnau ar gyfer ymgymryd ag ymchwiliadau ac achosion troseddol. |
| Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru | Sefydliad cyfunol o swyddogion awdurdod lleol sy'n arwain Gwasanaethau Diogelu Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru. |
| Cyfwerth ag Amser Llawn | Ffigur sy'n cynrychioli'r rhan honno o amser swyddog unigol sydd ar gael i gyflawni rôl benodol neu gyfres benodol o ddyletswyddau. Mae'n adlewyrchu'r ffaith y gallai unigolion weithio'n rhan-amser, neu y gallai fod ganddynt gyfrifoldebau eraill yn y sefydliad nad ydynt yn gysylltiedig â gorfodi bwyd. |
| Cynllun Gwasanaeth | Dogfen a gynhyrchir gan awdurdod lleol sy'n amlinellu ei gynlluniau ar gyfer darparu a chyflwyno gwasanaeth bwyd i'r gymuned leol. |
| Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd | Cynllun sgorio busnesau bwyd sy'n rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr am eu safonau hylendid. |
| Cytundeb Fframwaith | Mae'r Cytundeb Fframwaith yn cynnwys:<br>• Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd<br>• Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth<br>• Cynllun Monitro<br>• Cynllun Archwilio<br><br>Mae'r **Safon** a'r **Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth** yn amlinellu disgwyliadau'r Asiantaeth o ran cynllunio a darparu gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd. |

| | |
|---|---|
| | Mae'r **Cynllun Monitro** yn mynnu bod awdurdodau lleol yn cyflwyno ffurflenni i'r Asiantaeth bob tri mis ar eu gweithgareddau gorfodi bwyd h.y. nifer yr arolygiadau, samplau ac erlyniadau.<br><br>O dan y **Cynllun Archwilio**, bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnal archwiliadau o wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd awdurdodau lleol yn unol â'r meini prawf a osodwyd yn y Safon. |
| Dadansoddwr Cyhoeddus | Swyddog sydd â'r cymwysterau rhagnodedig a benodir yn ffurfiol gan yr awdurdod lleol i gynnal dadansoddiad cemegol o samplau bwyd. |
| Fforwm aelodau | Fforwm awdurdod lleol lle y mae Aelodau'r Cyngor yn trafod a gwneud penderfyniadau am wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd. |
| Ffurflenni OCD | Ffurflenni ar weithgareddau gorfodi cyfraith bwyd lleol y mae'n rhaid eu cyflwyno i'r Undeb Ewropeaidd o dan y Gyfarwyddeb Rheolaeth Swyddogol ar Fwyd. |
| Grŵp Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru | Grŵp o uwch weithwyr proffesiynol Iechyd yr Amgylchedd awdurdod lleol sy'n cefnogi a hyrwyddo Iechyd yr Amgylchedd ac Iechyd Cyhoeddus yng Nghymru. |
| Gweithiwr Proffesiynol / Swyddog Iechyd yr Amgylchedd | Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol i orfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd. |
| HACCP | Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol – system rheoli diogelwch bwyd a ddefnyddir mewn busnesau bwyd i amlygu pwyntiau yn y broses gynhyrchu lle y mae'n hollbwysig, o safbwynt diogelwch bwyd, bod y mesur rheoli'n cael ei gynnal yn gywir, gan felly ddileu neu leihau'r perygl i lefel ddiogel. |
| Hylendid Bwyd / Bwyd Anifeiliaid | Y gofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â diogelwch ac iachusrwydd bwyd / bwyd anifeiliaid. |
| Hysbysiad Camau Unioni | Hysbysiad a roddir gan un o Swyddogion Awdurdodedig yr awdurdod lleol o dan Reoliad 9 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 (fel y'u |

| | |
|---|---|
| | diwygiwyd) i weithredwr busnes bwyd er mwyn gosod cyfyngiadau ar sefydliad, offer neu broses hyd nes y bydd gwaith penodedig wedi'i wneud i gydymffurfio â gofynion hylendid bwyd. |
| Hysbysiad Gwella Hylendid | Hysbysiad a roddir gan un o Swyddogion Awdurdodedig yr awdurdod lleol o dan Reoliad 6 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, sy'n mynnu bod perchennog busnes bwyd yn cyflawni gwaith addas er mwyn sicrhau bod y busnes yn cydymffurfio â rheoliadau hylendid. |
| LAEMS | System electronig yw System Monitro Camau Gorfodi Awdurdodau Lleol a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i adrodd ar eu gweithgareddau gorfodi cyfraith bwyd i'r Asiantaeth Safonau Bwyd. |
| PACE | Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 – mae'n llywodraethu'r gweithdrefnau ar gyfer casglu tystiolaeth mewn ymchwiliadau troseddol. |
| Penaethiaid Safonau Masnach Cymru | Grŵp o uwch weithwyr proffesiynol Safonau Masnach awdurdod lleol sy'n cefnogi a hyrwyddo Safonau Masnach yng Nghymru. |
| Prif Awdurdod | Awdurdod lleol sydd wedi datblygu partneriaeth â busnes sy'n masnachu ar draws ffiniau awdurdod lleol ac sy'n rhoi cyngor i'r busnes hwnnw. |
| Pwynt Rheoli Critigol | Cam yng ngweithrediadau busnes bwyd lle mae rheolaeth yn hanfodol er mwyn atal neu ddileu perygl bwyd neu ei leihau i lefelau derbyniol. |
| Rheolaethau Swyddogol | Unrhyw fath o reolaeth ar gyfer dilysu cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid. |
| Rhybuddion Perygl Bwyd/ Rhybuddion Bwyd | System a weithredir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd i rybuddio'r cyhoedd ac awdurdodau lleol am broblemau cenedlaethol neu ranbarthol yn ymwneud â diogelwch bwyd. |
| Safonau bwyd | Y gofynion cyfreithiol sy'n ymdrin ag ansawdd, cyfansoddiad, labelu, cyflwyniad a hysbysebu bwyd, a deunyddiau sy'n dod i gysylltiad â bwyd. |
| Safonau Masnach | Y gwasanaeth mewn awdurdod lleol sy'n gorfodi |

| | |
|---|---|
| | deddfwriaeth safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, ymhlith cyfrifoldebau eraill. |
| Sefydliad cymeradwy | Sefydliadau gweithgynhyrchu bwyd a gymeradwywyd gan yr awdurdod lleol, o fewn cyd-destun deddfwriaeth benodol, ac y rhoddwyd cod adnabod unigryw iddynt sy’n berthnasol ym maes masnach genedlaethol a/neu ryngwladol. |
| Sgôr risg | System sy’n rhoi sgôr i sefydliadau bwyd yn ôl risg ac sy’n pennu pa mor aml y dylid arolygu’r sefydliadau hynny. Er enghraifft, dylai sefydliadau risg uchel o ran hylendid gael eu harolygu o leiaf bob 6 mis. |
| Swyddog awdurdodedig | Swyddog â chymwysterau addas sydd wedi’i awdurdodi gan yr awdurdod lleol i weithredu ar ei ran wrth orfodi deddfwriaeth, er enghraifft. |
| Swyddog Safonau Masnach | Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol a allai orfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, ymhlith cyfrifoldebau eraill. |
| Ymyrraeth | Dulliau neu dechneg a ddefnyddir gan awdurdod i gadarnhau bod busnes yn cydymffurfio â chyfraith bwyd neu fwyd anifeiliaid, neu i’w gynorthwyo i wneud hynny. |